

Y CYNGOR

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 6 Rhagfyr, 2021.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Jayne Norman (Maer); Cynghorwyr Julie Aviet, Vincent Bailey, Rhiannon Birch, Jonathan Bird, Bronwen Brooks, Lis Burnett, George Carroll, Christine Cave, Janice Charles, Geoff Cox, Robert Crowley, Andrew R.T. Davies, Pamela Drake, Vincent Driscoll, Stewart Edwards, Ben Gray, Owen Griffiths, Stephen Griffiths, Sally Hanks, Nic Hodges, Hunter Jarvie, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Gordon Kemp, Peter King, Kevin Mahoney, Kathryn McCaffer, Anne Moore, Neil Moore, Michael Morgan, Rachel Nugent-Finn, Andrew Parker, Bob Penrose, Sandra Perkes, Andrew Robertson, Leighton Rowlands, Ruba Sivagnanam, John Thomas, Neil Thomas, Steffan Wiliam, Margaret Wilkinson, Edward Williams and Mark Wilson.

601 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Maer y datganiad a ganlyn:

"A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

602 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd Millie Collins.

603 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

604 COFNODION –

PENDERFYNWYD –

(1) CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi, 2021 fel cofnod cywir.

(2) BOD cymeradwyo cofnodion y Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 28 Medi, 2021 fel cofnod cywir, ar yr amod ei fod yn nodi mai adroddiad Steve James 'nid

adroddiad yr Arweinydd oedd yr adroddiad y cyfeiriodd y Cynghorydd Kemp ato ar dudalen 377.

(3) CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 11 Hydref, 2021 fel cofnod cywir.

605 CYHOEDDIADAU –

- (i) DIGWYDDIADAU MAEROL - Soniodd y Maer wrth y Cyngor am nifer o ddigwyddiadau a fynychodd ers y cyfarfod diwethaf. Roedd y rhain yn cynnwys Gwasanaeth Coffa'r cyn-arglwydd Raglaw Peter Beck yn Eglwys Gadeiriol Llandaf, cynhyrchiad CAOS o Evita, Cinio Croeso 'Nol Ffrindiau a Chymdogion y Barri, y Gwasanaeth Cofio yn y Swyddfeydd Dinesig, yn Llanilltud Fawr a Thref y Barri, Gweld y Llyfr Coffa yn Llyfrgell y Barri, Gosod Torch Plant ym Mynwent y Barri, Dathliad Diwrnod Iqbal yng Nghaerdydd, Cynnau'r Goleuadau Nadolig ar Stryd Fawr y Barri, Agoriad Swyddogol Neuadd Sgowtiaid Porthceri, y Rhws, cyfarfod gyda Chomisiynydd Ardal y Sgowtiaid gyda'r bwriad o gofrestru Sgowt y Maer i gynorthwyo gyda dyletswyddau Dinesig, Gŵyl Golau yn y Barri a Dathliad y 'Beavers' yn y Neuadd Goffa. Dywedodd y Maer ymhellach ei bod yn edrych ymlaen at fynychu, cefnogi a chynnal llawer mwy o ddigwyddiadau yn y dyfodol yn unol â chanllawiau Covid 19 Llywodraeth Cymru.
- (ii) DEISEB – Cyflwynodd y Cynghorydd Cave ddeiseb i'r Maer, drwy e-bost, ar ran trigolion East View, Llandŵ. Roedd y ddeiseb yn galw ar Gyngor Bro Morgannwg i ehangu'r cyfleusterau parcio wrth y troad i East View sy'n ffordd bengaead.

606 DIWEDDARIAD AR AILSTRWYTHURO'R UWCH DÎM ARWEINYDDIAETH (SLT) ARFAETHEDIG (A) –

Dywedodd yr Arweinydd, wrth gyflwyno'r adroddiad, mai diben yr adroddiad oedd rhoi gwybod i Aelodau am yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ymhlith staff y Cyngor, i geisio cymeradwyaeth i ailgynllunio rôl statudol y Swyddog Canlyniadau a rôl gysylltiedig y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn unol â'r darpariaethau o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, 1985 a 2000 fel y'i diwygiwyd. Cadarnhaodd yr Arweinydd hefyd y byddai swyddi'r Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro hefyd yn rhan o'r Uwch Dîm Arwain Gweithredol. Wedi'i eilio'n briodol gan y Cynghorydd Burnett, gofynnodd yr Arweinydd am hepgor rheolau sefydlog i ganiatáu i'r cynrychiolydd o Gyfreithwyr Geldard, a oedd wedi rhoi cyngor allanol i'r Cyngor mewn perthynas â'r cynigion, siarad os oedd angen, ac oherwydd gwrthdaro buddiannau gadawodd Uwch Dîm Arwain y Cyngor y cyfarfod tra bod yr eitem yn cael ei thrafod. Dywedodd yr Arweinydd hefyd fod Geldard wedi cynghori bod y cynigion mewn trefn.

Gofynnodd y Cynghorydd Carroll am eglurhad na fyddai cefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad yn golygu y byddent yn cefnogi'r ddwy swydd Cyfarwyddwr newydd. Ailddatganodd yr Arweinydd mai'r diben oedd nodi'r ymgynghoriad, gan ddweud bod

y ddwy swydd Cyfarwyddwr eisoes wedi'u cymeradwyo'n flaenorol gan y Cyngor Llawn, ac i gadarnhau bod y Swyddog Canlyniadau a rôl gysylltiedig Swyddog Cofrestru Etholiadol y Cyngor wedi'u hail-bennu o 7 Rhagfyr 2021.

Holodd y Cyngorydd Kemp a ymgynghorwyd â'r holl staff ac a allai'r Arweinydd roi syniad o ganran yr ymatebion staff. Cadarnhaodd yr Arweinydd yr ymgynghorwyd â staff ar bob lefel ac er bod yr ymatebion wedi bod yn fach iawn, ni allai gadarnhau'r ganran wirioneddol.

Dywedodd yr Arweinydd, gan roi sylw i baragraff 4.10, nad oedd yn fwriad cael strwythur dwy haen a thynnodd sylw at gamgymeriad ym mharagraff 5.5 gan ddweud y dylai'r paragraffau y cyfeiriwyd atynt yn y frawddeg gyntaf o 4.20 a 4.23, fod wedi darllen 'paragraffau 4.21 i 4.27'.

Wedi ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD –

(1) Y nodir canlyniad yr ymgynghoriad diweddar ymhlith staff y Cyngor ar gynigion ar gyfer newidiadau i strwythur Uwch Dîm Arweinyddiaeth Weithredol y Cyngor.

(2) Y dynodir Rheolwr Gyfarwyddwr y Cyngor yn Swyddog Canlyniadau'r Cyngor ochr yn ochr â rôl gysylltiedig Swyddog Cofrestru Etholiadol y Cyngor o 7 Rhagfyr, 2021, gyda'r dyletswyddau i barhau pan fydd teitl y swydd yn newid i'r Prif Weithredwr.

(3) Y caiff Cyfansoddiad y Cyngor ei ddiwygio i adlewyrchu ail-ddynodi'r rolau fel y nodir uchod.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Cydymffurfio â gofynion statudol Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl 1983, 1985 a 2000 (fel y'i diwygiwyd).

(3) Sicrhau bod y Cyfansoddiad yn adlewyrchu'r newid mewn dynodiad statudol.

DS. Gadawodd yr holl Uwch swyddogion a oedd yn ymwneud â'r broses ymgynghori y cyfarfod tra bod yr eitem hon yn cael ei hystyried heblaw am y Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu a'r Swyddog TGCh sy'n cefnogi'r cyfarfod.

Fodd bynnag, roedd cynrychiolydd o Gyfreithwyr Geldards yn bresennol yn y cyfarfod i gynghori yn ôl y gofyn.

607 DIOGELWCH A CHEFNOGAETH CYNGHORWYR (CYF) –

Dechreuodd y Cynghorydd Bailey, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, drwy ddweud bod yr adroddiad yn nodi canllawiau defnyddiol i Gynghorwyr ynghylch y camau y dylent eu cymryd i gadw eu hunain yn ddiogel. Nododd Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol fod yn rhaid i Awdurdod gefnogi gwaith ei Gynghorwyr a'i Aelodau Cyfetholedig Statudol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau ac roedd hyn yn cynnwys diogelwch ei Gynghorwyr.

Er bod dyletswydd ar y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i ariannu a darparu'r cymorth angenrheidiol i alluogi Cynghorwyr i gyflawni eu rolau'n rhesymol ac yn ddiogel, nid oedd yn ymarferol cyflwyno ceisiadau unigol gerbron y Pwyllgor, yn enwedig os bydd rhai ceisiadau'n geisiadau brys. Cynigiwyd felly y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'r Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 i ystyried unrhyw geisiadau i ddarparu cyllid ar gyfer mesurau diogelwch priodol gan Gynghorwyr.

Nodwyd ymhellach y byddai unrhyw gais o'r fath yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod, ond byddai disgwyliad bod mesurau diogelwch yn seiliedig ar gyngor gan yr Heddlu neu'r gwasanaethau diogelwch. Felly, byddai'r cyrff perthnasol fel arfer yn rhoi gwybod am unrhyw gymorth sy'n ofynnol a bydd unrhyw gyllid mewn perthynas â hynny yn rhesymol ac yn gymesur.

PENDERFYNWYD –

(1) Y cytunir, os bydd Cynghorydd mewn perygl personol neu fgythiad niwed sylweddol wrth wneud ei rôl, y dylid ystyried ariannu mesurau diogelwch priodol, yn enwedig pan fydd mesurau o'r fath wedi'u cynghori gan yr Heddlu neu'r gwasanaethau diogelwch.

(2) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'r Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 i ystyried a phenderfynu ar unrhyw gais fel y gyfeiriwyd ato ym mhenderfyniad (1) uchod am gyllid o'r fath.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1a2) Cefnogi Cynghorwyr i gyflawni eu rolau etholedig amrywiol.

608 AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH (CYF) –

Dywedodd y Cynghorydd Bailey, fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, fod y mater wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 22 Tachwedd yn dilyn penderfyniad y Cyngor ar 26 Gorffennaf, 2021 (Cofnodion Rhif 298):

(1) CYMERADWYO'r broses o wneud Datganiad "Cyngor Amrywiol" Bro Morgannwg fel a ganlyn:

“Bydd Cyngor Bro Morgannwg yn:

- (i) Dangos ymrwymiad clir a chyhoeddus i wella amrywiaeth;
- (ii) Dangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb;
- (iii) Ystyried darwahanu amseroedd cyfarfodydd y Cyngor a chytuno ar gyfnodau egwyl er mwyn cefnogi Cyngorwyr sydd ag ymrwymadau eraill; a
- (iv) Nodi cynllun gweithredu o weithgarwch cyn Etholiadau Llywodraeth Leol 2022.”

Felly, paratowyd Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth Drafft a oedd wedi'i atodi yn Atodiad A i'r adroddiad i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd y cynllun yn cynnwys manylion y gweithgareddau a gynlluniwyd i'w cynnal gan y Cyngor cyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022 yn ogystal â rhai gweithgareddau y cynigiwyd eu cynnal yn dilyn yr etholiadau. Roedd yr amcanion yn y Cynllun Gweithredu wedi'u seilio ar y rhai a awgrymwyd gan Lywodraeth Cymru. Ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad, yna

PENDERFYNWYD – Y caiff y Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth ei gymeradwyo a mabwysiadu'r Cynllun Gweithredu.

Rhesymau dros benderfyniadau

Mabwysiadu'r Cynllun Gweithredu arfaethedig yn ffurfiol a chefnogi'r gwaith sy'n gysylltiedig ag Agenda Amrywiaeth mewn Democratiaeth Llywodraeth Cymru.

609 DEFNYDD O BWERAU BRYG Y RHEOLWR GYFARWYDDWR (RG) –

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o Bwerau Bryg gan y Rheolwr Gyfarwyddwr yn cael ei nodi.

Rhesymau dros benderfyniadau

O ystyried Cyfansoddiad y Cyngor.

610 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGORAU CRAFFU MAI 2019 - EBRILL 2021 (RG) –

PENDERFYNWYD – BOD Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu ar gyfer y cyfnod o fis Mai 2019 i fis Ebrill 2021 yn cael ei dderbyn..

Rhesymau dros benderfyniadau

Derbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu fel sy'n ofynnol o dan Gyfansoddiad y Cyngor.

611 ADOLYGIAD O'R DATGANIAD O'R EGWYDDORION GAMBLO DEDDF
2005 2022-2025 (CYF) –

PENDERFYNWYD – BOD Datganiad Egwyddorion Bro Morgannwg ar gyfer ei swyddogaethau gamblo ar gyfer y cyfnod 2022-2025 yn cael ei gymeradwyo a'i fabwysiadu.

Rhesymau dros benderfyniadau

Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd statudol fel awdurdod trwyddedu.

612 ADRODDIAD ADOLYGIAD ANNIBYNNOL BIOMAS BARRI (CYF) –

Dechreuodd yr Arweinydd wrth sôn am y daith hyd yma o ran yr adroddiad, a phenderfyniad y Cyngor ar 26 Chwefror 2020, oedd wedi galw am "Adolygiad Annibynnol o benderfyniadau Cyngor Bro Morgannwg ar yr holl geisiadau cynllunio'n ymwneud â Llosgydd y Barri". Cafodd yr Adroddiad Adolygu ei ystyried gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio ar 19 Hydref, 2021, y Pwyllgor Cynllunio ar 27 Hydref, 2021 a'r Cabinet ar 27 Medi a 22 Tachwedd, 2021. Roedd y Bargyfreithiwr a benodwyd i gynnal yr adolygiad hefyd yn bresennol yn y cyfarfod, gyda'r Cynghorydd Burnet yn eilio Cynnig yr Arweinydd y dylid hepgor y Rheolau Sefydlog i ganiatáu i awdur adroddiad yr adolygiad, Annabel Graham-Paul, siarad os oedd angen. Cyfeiriodd yr adolygiad at y ffaith nad oedd swyddogion y Cyngor o dan awdurdod dirprwyedig wedi gweithredu'n anghyfreithlon a bod barn briodol wedi'i harfer.

O ystyried yr awgrymiadau o ddiffyg cynnydd, nododd yr adolygiad sefyllfa swyddogion, sef ei bod wedi bod yn briodol gweithio gyda'r datblygwyr i geisio cydymffurfio â'r amodau y cytunwyd arnynt, er nad oedd y gwaith yn gwbl weithredol. Nid oedd yr adolygydd ychwaith wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth a oedd wedi peri pryder bod swyddogion wedi gweithredu'n esgeulus neu'n amhroffesiynol, a daeth i'r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth o anghyfreithlondeb na chamweinyddu yn y broses o ddelio â'r cais. Roedd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr ym mis Ionawr 2021 yn cadarnhau y dylid cyflwyno cais Adran 73 i reoleiddio'r datblygiad er bod y datblygwr yn parhau i herio'r sefyllfa hon.

O ran a ddylid bod wedi nodi'r datblygiad fel Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol, daeth yr adolygydd i'r casgliad nad oedd argaeledd yr opsiwn hwn yn bodoli ar yr adeg dan sylw.

Wrth symud ymlaen, roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi ei gwneud yn glir bod Arolwg Amgylcheddol wedi'i gyflwyno ac roedd hefyd wedi penderfynu nad oedd angen cyflwyno hysbysiad terfynu gan nad oeddent o'r farn ei bod yn debygol y byddai effeithiau amgylcheddol sylweddol yn cael eu nodi.

Wedi hynny, cynigiodd yr Arweinydd, a'i eilio gan y Cynghorydd Burnett, y dylid cymeradwyo'r Adroddiad Adolygu.

Dywedodd y Cynghorydd Bailey ei fod yn ei chael yn anodd deall casgliad yr adroddiad ynghylch y prosiect biomas, sef nad oedd yn ddatblygiad Atodlen 1 yn nhermau cynllunio, a bod Gweinidog y Llywodraeth wedi dod i'r casgliad mewn llythyr dyddiedig 29 Gorffennaf 2021 y dylai fod wedi bod yn ddarostyngedig i Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA). Ychwanegodd fod y Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi cyngor clir bod nwyeddio'n gyfystyr â llosgi. Yn ei farn ef, nid oedd yr adolygiad yr hyn y gofynnwyd amdano ac anogodd ei gyd-gynghorwyr i wrthod yr adroddiad.

Dywedodd y Cynghorydd Dr Johnson y dylai'r datblygiad fod wedi bod yn destun AEA. Roedd Cyfeillion y Ddaear eisoes wedi nodi eu hawgrymiadau beth amser yn ôl mewn perthynas â'r datblygiad, y dywedodd ei fod wedi cael ei anwybyddu gan swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Cyngor ac y dylid fod wedi gwrandao arnynt. Yn ei farn ef, dylai hefyd fod wedi bod yn gais Atodlen 1, ac yn cael ei ystyried fel Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC). Daeth i'r casgliad drwy argymhell bod y Cyngor yn gwrthod yr Adroddiad Adolygu ac yn derbyn adroddiad pellach mewn perthynas â'r ddau fater hyn. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Wiliam.

Dywedodd y Cynghorydd Hodges fod y cyhoedd, ar adeg y penderfyniad cynllunio, yn bendant o'r farn mai datblygiad atodlen 1 oedd y datblygiad ac mae llosgi ydoedd mewn gwirionedd. Ychwanegodd bod y mwyafrif llethol o'r Blaid Lafur a'r Blaid Geidwadol ar y pryd wedi pleidleisio o blaid y cais a bod y datblygiad yn ei farn ef yn difetha'r Dref.

Ar y cam hwn yn y ddatl gofynnodd y Cynghorydd King am roi cyfle i'r Bargyfreithiwr ymateb i rai o'r sylwadau a wnaed mewn perthynas â'r adolygiad. Cyfeiriodd y Bargyfreithiwr (Ms. Graham-Paul) at gwmpas ei chyfarwyddiadau - nad oedd wedi cael cyfarwyddyd i gynnal ymchwiliad nac i gyfweld â swyddogion, ond ei bod wedi cael mynediad i ffeiliau cynllunio ac wedi bod yn fodlon ei bod wedi derbyn digon o wybodaeth i allu ystyried a oedd y broses wedi bod yn gyfreithlon. Nododd hefyd fod angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn awr a'i fod yn cael ei gynnal gan fod Llywodraeth Cymru wedi newid ei safbwynt ar y mater.

O ran y pwyntiau a godwyd ynghylch a ddylai'r datblygiad fod wedi bod yn ddatblygiad atodlen 1 neu 2, dywedodd, gan fod yr adolygiad wedi dechrau ym mis Mehefin 2020, nad oedd wedi cael golwg ar lythyr 29 Gorffennaf 2021 gan Lywodraeth Cymru. Y cylch gwaith oedd adolygu'r broses o wneud penderfyniadau. Yn ystod yr adolygiad, dangosodd y dystiolaeth fod Gweinidogion Cymru wedi cefnogi barn swyddogion Bro Morgannwg. Awgrymodd y gallai swyddogion fod wedi dibynnu'n ormodol ar ystyriaethau cynllunio cynharach a chysylltiedig wrth ddod i benderfyniad y dylai'r datblygiad barhau i gael ei ystyried yn ddatblygiad atodlen 2. Fodd bynnag, nid oedd o'r farn bod swyddogion wedi gweithredu'n esgeulus. O ran a ddylid ystyried y datblygiad fel DAC, byddai hwn yn fater y gellid ei ystyried yn awr ond nid ar y pryd, ac os oedd yr Aelodau'n dymuno cael cyngor ar hyn, gallent wneud cais. Dywedodd Ms Graham-Paul ymhellach nad oedd angen adolygiad mwy dwys yn ei barn hi, ond unwaith eto, mater i'r Cyngor ei ystyried fyddai hynny.

Mewn ymateb, dywedodd yr Arweinydd fod y mater wedi bod yn benderfyniad a dehongliad ar y pryd ac roedd Llywodraeth Cymru bellach wedi newid ei meddwl. Beth bynnag, dywedodd fod DAC yn benderfyniad i Lywodraeth Cymru, ac nad oedd

yn un y gallai'r Cyngor fod wedi'i wneud gan nad oedd ganddo awdurdod i wneud hynny. Fodd bynnag, manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i ofyn am eglurder gan y swyddogion ynghylch dilysrwydd y cais. Gyda chytundeb i hepgor y Rheolau Sefydlog, dywedodd y Pennaeth Adfywio a Chynllunio y byddai'r cais, gan ei fod wedi'i gymeradwyo yn 2015, yn para am bum mlynedd pe na bai'n cael ei weithredu, a oedd yn golygu y byddai wedi dod i ben ar 30 Gorffennaf, 2020. Dywedodd hefyd fod gwahaniaeth sylweddol rhwng yr hyn a adeiladwyd a'r hyn a gymeradwywyd ym mis Gorffennaf 2015 ac o ganlyniad roedd camau gorfodi wedi'u hawdurdodi.

Yn ogystal, dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr nad yr hyn a adeiladwyd ar y safle oedd y datblygiad y gwnaed cais amdano, a chan fod caniatâd cynllunio wedi'i roi am 5 mlynedd roedd hwnnw bellach wedi dod i ben. Fodd bynnag, apeliodd gweithredwr y safle yn erbyn hysbysiad gorfodi ac o ganlyniad roedd rhaid cadw at y broses apelio gysylltiedig. Yn y cyfamser, roedd ymgynghoriad ar y gweill hefyd mewn perthynas ag AEA. Pe bai'r apêl yn llwyddo, cynghorodd y byddai caniatâd cynllunio yn cael ei roi wrth gwrs, ond pe bai'r apêl yn methu ni fyddai caniatâd cynllunio yn cael ei roi a byddai'r hysbysiad gorfodi yn sefyll.

Dywedodd y Cynghorydd Williams hefyd, pe na bai AEA ar waith, ei bod yn bwysig nodi na ellid gwrthod ceisiadau cynllunio yn awtomatig.

Cododd y Cynghorydd Robertson ei bryder ynghylch prosiectau ar raddfa fawr yn gallu cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru heb fawr ddim craffu.

Wedi hynny, cytunodd y Cynghorydd Dr Johnson, wrth gydnabod y sylwadau a wnaed yn ystod y cyfarfod, i ddiwygio ei Gynnig o blaid gwrthod adroddiad yr adolygiad annibynnol. Cytunwyd ar hyn gan y Cynghorydd Wiliam.

Yn dilyn y ddadl ac o ystyried y ffaith i'r Cynghorydd Dr. Johnson dynnu ei ddiwygiad i'r Cynnig yn ôl, cynhaliwyd pleidlais wedi'i chofnodi wedyn ar gynnig yr Arweinydd -

BOD Adroddiad Adolygiad Annibynnol Biomas Y Barri yn cael ei gymeradwyo.

Aelodau	Canys	Yn Erbyn	Ymatal
Julie Aviet	√		
Rhiannon Birch	√		
Vincent Bailey		√	
Jonathan Bird	√		
Bronwen Brooks	√		
Lis Burnett	√		
Christine Cave		√	

George Carroll		√	
Janice Charles		√	
Geoff Cox	√		
Robert Crowley		√	
Andrew R T Davies		√	
Pamela Drake	√		
Vince Driscoll		√	
Stewart Edwards		√	
Ben Gray	√		
Owen Griffiths	√		
Stephen Griffiths		√	
Sally Hanks	√		
Nic Hodges		√	
Hunter Jarvie	√		
Gwyn John	√		
Ian Johnson		√	
Gordon Kemp		√	
Peter King	√		
Kevin Mahoney		√	
Kathryn McCaffer	√		
Anne Moore	√		
Neil Moore	√		

Michael Morgan	√		
Jayne Norman	√		
Rachel Nugent-Finn		√	
Andrew Parker	√		
Bob Penrose		√	
Sandra Perkes	√		
Andrew Robertson		√	
Leighton Rowlands		√	
Ruba Sivagnanam	√		
John Thomas	√		
Neil Thomas	√		
Steffan Wiliam		√	
Margaret Wilkinson	√		
Edward Williams	√		
Mark Wilson	√		
CYFANSWM	26	18	

Enillwyd y bleidlais.

PENDERFYNWYD – BOD Adroddiad Adolygiad Annibynnol Biomas Y Barri yn cael ei gymeradwyo.

Rhesymau dros benderfyniadau

Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

DS. Roedd y Bargyfreithiwr Annabel Graham Paul hefyd yn bresennol i gynghori'r Cyngor yn ôl yr angen.

613 GORCHYMYN BWRDEISTREF SIROL BRO MORGANNWG (TREFNIADAU ETHOLIADOL) 2021 (CYF) –

PENDERFYNWYD – Y dylid cymeradwyo cynigion y Cabinet, fel y nodir yng Nghofnod Rhif C729 22 Tachwedd, 2021

Rhesymau dros benderfyniadau

Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

614 LLEOEDD PLEIDLEISIO A GORSAFOEDD PLEIDLEISIO: ADOLYGIAD BACH (CYF) –

PENDERFYNWYD – Y dylid cymeradwyo cynigion y Cabinet, fel y nodir yng Nghofnod Rhif C730 22 Tachwedd, 2021

Rhesymau dros benderfyniadau

Ystyried swyddogaethau statudol y Cyngor o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

615 ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI'R TRYSORLYS 2021/22 (CYF) –

PENDERFYNWYD – Y dylid cymeradwyo cynigion y Cabinet, fel y nodir yng Nghofnod Rhif C735 22 Tachwedd, 2021

Rhesymau dros benderfyniadau

Cydymffurfio â Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

616 CYNLLUN GOSTYNGIAD TRETH GYNGOR (CYF) –

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid cymeradwyo cynigion y Cabinet, fel y nodir yng Nghofnod Rhif C739 22 Tachwedd, 2021

(2) Y dylid nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C739(4) (22 Tachwedd, 2021)) fel y'i nodir yn Adran 14.14.2 (ii) o Gyfansoddiad y Cyngor.

Rheswm dros y penderfyniad

(1) Galluogi Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i gael ei gymeradwyo erbyn 31 Ionawr, 2022 ac ar waith i'w weithredu o 1 Ebrill, 2022.

(2) Mae'r adroddiadau am ddefnyddio'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

617 YMATEB DRAFFT I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR Y CYD-BWYLLGORAU CORFFORAETHOL: CANLLAWIAU STATUDOL DRAFFT (CYF) –

PENDERFYNWYD - Y dylid nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C672(2) (27 Medi, 2021)) fel y'i nodir yn Adran 14.14.2 (ii) o Gyfansoddiad y Cyngor.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae'r adroddiadau am ddefnyddio'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

618 YMATEB DRAFFT I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR LUNIO DYFODOL CYMRU: DEFNYDDIO DANGOSYDDION A CHERRIG MILLTIR CENEDLAETHOL I FESUR CYNNYDD EIN CENEDL (CYF) –

PENDERFYNWYD - Y dylid nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C709(2) (25 Hydref, 2021)) fel y'i nodir yn Adran 14.14.2 (ii) o Gyfansoddiad y Cyngor.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae'r adroddiadau am ddefnyddio'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

619 TRAWSNEWID TREFI: CEFNOGAETH I WELLA CANOL TREFI (CYF) –

PENDERFYNWYD - Y dylid nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C710(10) (25 Hydref, 2021)) fel y'i nodir yn Adran 14.14.2 (ii) o Gyfansoddiad y Cyngor.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae'r adroddiadau am ddefnyddio'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

620 CWESTIYNAU YN UNOL AG ADRAN 4.18 CYFANSODDIAD Y CYNGOR –

Cyflwynwyd yr ymatebion canlynol i gwestiynau Aelodau fel y'u cynhwysir yn yr agenda:

(i) **Cwestiwn gan y Cynghorydd M.J.G. Morgan**

A allwch gadarnhau faint o gartrefi sy'n eiddo i'r Awdurdodau Lleol sy'n wag ym Mhentreffi Bro Morgannwg ar hyn o bryd, ac yn benodol a allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y bwriad i adnewyddu'r pedwar tŷ sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol yn Sain Siorys a'r un ym Mhendeulwyn sydd yn dal yn wag ac wedi'u hesgeuluso ers o leiaf mis Hydref 2019?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Dai a Gwasanaethau Adeiladau

Ar hyn o bryd mae 10 eiddo cyngor yn wag yn y Fro wledig ar hyn o bryd. O'r rhain, mae mân atgyweiriadau yn digwydd ar 4 cyn eu hailosod. O'r 6 sy'n weddill, mae 5 yn unedau gwag tymor hir sy'n cynnwys y cartrefi Airey ansafonol yn Sain Siorys ac eiddo gwag ym Mhendeulwyn, yn wag wrth aros am atgyweiriadau strwythurol mawr.

Mae'r pedwar eiddo a adeiladwyd yn null 'Airey' ar Lawnt y Castell, Sain Siorys wedi'u gohirio wrth aros am arfarniad opsiynau / gwaith helaeth oherwydd adeiladu tai anhraddodiadol.

Er y rhagwelwyd i ddechrau y byddid yn dymchwel ac yn ailadeiladu'r cartrefi hyn mae costau adeiladu sylweddol uwch wedi achosi i'r Cyngor adolygu hyfywedd ariannol y prosiect hwn. Ar hyn o bryd mae swyddogion yn adolygu'r costau a'r opsiynau i benderfynu ar yr ateb ymarferol gorau ar gyfer yr eiddo hwn

Daw'r adolygiad hwnnw i ben yn fuan ac ymgynghorir â'r tenantiaid yr effeithir arnynt ar ganlyniad yr adolygiad hwnnw o'r opsiynau.

Atodol

Gan gyfeirio at anghenion y bobl a oedd yn dibynnu ar lety Awdurdodau Lleol yn y Fro wledig a'i phentreffi o ran rhoi'r un flaenoriaeth iddynt â'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd trefol, gofynnodd y Cynghorydd Morgan i'r Aelod Cabinet a fyddai'n cadarnhau amserlen ar gyfer pryd y byddai'r gwaith yn cael ei wneud gan fod yr eiddo wedi bod yn wag ers dros ddwy flynedd.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet ei bod wedi bod mewn cysylltiad â dau o'r tenantiaid yr effeithiwyd arnynt a oedd am ddychwelyd i'r eiddo i drafod eu hopsiynau a byddai cyfarfod yn cael ei gynnal yn fuan. Cydnabu fod oedi wedi digwydd oherwydd bod y contractwr gwreiddiol wedi rhoi'r gorau iddi, ac arweiniodd hyn at gynnal ymarfer tendro newydd. Roedd opsiynau'n cael eu hasesu o ran y ffordd fwyaf darbodus o ddatblygu'r atgyweiriadau gofynnol.

(xvii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson**

Pa gynigion Teithio Llesol sy'n cael eu hystyried i helpu cerddwyr o bob gallu o ran symudedd i groesi ffyrdd yn ddiogel yng nghyffiniau cylchfan Pont Gladstone y Barri?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Gallaf ddweud bod gwahanol opsiynau'n dal i gael eu hystyried o ran darparu cyfleusterau croesi priodol ar y gyffordd bwysig hon.

Fel y gwyddoch, mae'n debyg, nodir yr holl ffyrdd sy'n arwain at bont Gladstone Road ar Fap Rhwydwaith Teithio Llesol drafft y Cyngor (MRhTLI) a fydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ddiweddarach y mis hwn. Mae'r rhain yn cynnwys y llwybrau teithio llesol canlynol:

- VALE-SPR-Future-016C (Pont Heol Gladstone)
- VALE-SPR-Future-013A (Broad Street i Gladstone Road)
- VALE-SPR-Future-016C (Gladstone Road)
- VALE-SPR-Future-016C (Heol Holltwn i Gladstone Road)

Mae rhagor o fanylion am y rhain ar gael ar wefan y Cyngor neu drwy gysylltu â Swyddog Teithio Llesol y Cyngor.

Gan fod pob un o'r cynlluniau hyn yn cael eu datblygu, bydd cyfleusterau croesi ar gyfer cerddwyr a beicwyr yn cael eu hystyried.

Atodol

Dywedodd y Cynghorydd Dr Johnson ei bod yn anodd - fel person nad yw'n anabl - croesi'r ffordd yng nghyffiniau Pont Gladstone Road oherwydd cyflymder y traffig sy'n gadael y gylchfan. Gan gyfeirio at y mater a drafodwyd yn flaenorol o fewn cynllun Porth Gorllewin Canol Tref y Barri ychydig flynyddoedd yn ôl, ond nad oedd wedi'i ddatblygu, gofynnodd i'r Aelod Cabinet flaenoriaethu'r gwaith o fewn prosiectau cyfalaf yn y dyfodol er mwyn sicrhau diogelwch preswylwyr.

Gan gydymdeimlo â'r pwyntiau a wnaed gan y Cynghorydd Dr Johnson, dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n ystyried ei sylwadau.

(xviii) Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson

Pa gamau a nodwyd yn adroddiadau llifogydd s19 mis Rhagfyr 2020 fydd Cyngor y Fro yn eu gweithredu'r gaeaf hwn?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Mae adroddiadau Adran 19 sy'n ymwneud â'r llifogydd diweddar yn Ninas Powys a Sili ar gael ar wefan y Cyngor. Mae'r ddau adroddiad yn cofnodi'r digwyddiadau ym mis Rhagfyr 2020 ac yn cynghori ar y camau a argymhellir ar gyfer y gwahanol asiantaethau rheoli risg. Ar hyn o bryd mae'r camau arfaethedig yn cael eu hystyried ynghyd â'u cost / manteision cysylltiedig.

Mae'r Cyngor eisoes wedi cymryd nifer o gamau gweithredu yn Ninas Powys a Sili, gan gynnwys glanhau systemau draenio'r priffyrdd a chael gwybodaeth am y llifogydd gan y trigolion yr effeithiwyd arnynt.

O ran camau gweithredu pellach y Gaeaf hwn, y prif gam gweithredu i'r Cyngor yw darparu cynllun Diogelu Lefel Eiddo (DLE) ar gyfer Sili, fel yr awdurdod llifogydd lleol arweiniol. Yn ogystal, fis diwethaf, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer cynnal arolygon a datblygu achos busnes gan y Cyngor, ar y cyd â'r asiantaeth gyfrifol CNC, ar gyfer diogelu lefel eiddo posibl ar gyfer hyd at 200 eiddo yr effeithiwyd arnynt yn Ninas Powys.

Gan weithio gyda'r cymunedau lleol, mae ein swyddogion cynllunio at argyfwng wedi datblygu dogfen Ganllaw Cynllun Llifogydd Cymunedol gyda'r nod o wella hunan-wydnwch cymunedol. Mae'r ddogfen yn cynghori cymunedau lleol ar y ffordd orau o baratoi ar gyfer llifogydd a'i nod yw darparu gwell amddiffyniad ar gyfer bywyd ac eiddo.

Mae ein swyddogion yn parhau i fod yn ymrwymedig i barhau â'u gwaith i gefnogi pob cymuned y mae perygl llifogydd yn effeithio arnynt ond mae angen cydnabod bod yn rhaid i'r cymunedau eu hunain hefyd chwarae eu rhan mewn materion o'r fath, wrth i effeithiau newid yn yr hinsawdd ddod yn fwy a mwy heriol.

Mae'n rhaid i'r gymuned helpu ei hun yn enwedig gan na fydd Court Road ar gael i storio bagiau tywod yn y dyfodol. Gobeithir y gellir gwneud trefniadau gyda'r Cyngorau Cymuned lleol i nodi lleoliad lle gellir storio bagiau tywod mewn lleoliad lleol a hygyrch.

Atodol

Gan gyfeirio at gynlluniau brys ar gyfer y gaeaf, holodd y Cyngorydd Dr Johnson ble'r oedd y Cyngor yn sefyll o ran cynllunio ar gyfer argaeledd swyddogion a chymorth gwasanaethau cymdeithasol i bobl sy'n agored i niwed pe bai llifogydd sydyn yn digwydd eto yn y Fro.

Gan gyfeirio at yr angen i ymgynghori â swyddogion i allu ymateb, nododd yr Aelod Cabinet y byddai'n rhoi ateb ysgrifenedig i'r Cyngorydd Dr Johnson ac yn ei ddsbarthu hefyd i holl Aelodau'r Cyngor.

(iv) Cwestiwn gan y Cyngorydd Dr. I.J. Johnson

Pa gynlluniau sydd gan yr Aelod Cabinet i adolygu a diweddarau rhestr Trysorau Sirol y Fro, ac ymgysylltu â Gweinidogion Cymru i ddarparu gwell amddiffyniad, o ran cynllunio, i adeiladau pwysig tebyg ond nid 'rhestredig'?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio

O ystyried y gwaith helaeth sy'n gysylltiedig â datblygu rhestr trysorau'r Sir a'r ffaith bod y gwaith hwn wedi canolbwyntio'n bennaf ar eiddo hŷn o rinwedd hanesyddol pensaernïol, nid ystyrir ar hyn o bryd bod angen adolygu rhestr Trysorau'r Sir ar hyn o bryd. Mae hyn yn seiliedig ar y canlynol:

1. Nid yw cynnwys adeiladau rhestredig lleol ar restr Trysorau'r Sir yn cael unrhyw effaith uniongyrchol yn gyfreithiol ac nid ydynt ar hyn o bryd yn

ddarostyngedig i unrhyw reolaethau cynllunio ychwanegol dros newid neu ddymchwel.

2. Ers mabwysiadu'r rhestr, mae'r Cyngor hefyd wedi mabwysiadu ei Gynllun Datblygu Lleol. Mae Polisi SP10 o'r CDLI yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion datblygu, ymhlith pethau eraill, warchod, a lle bo'n briodol, gwella ansawdd rhinweddau pensaernïol a / neu hanesyddol adeiladau neu ardaloedd cadwraeth, gan gynnwys adeiladau rhestredig lleol. Gellir dehongli'r polisi'n fras i gynnwys pob adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol hyd yn oed os nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhestr genedlaethol neu leol.
3. Er y cydnabyddir bod adeiladau nodedig ym Mro Morgannwg nad ydynt yn cael eu hadnabod fel Trysorau'r Sir, ni fyddai gosod y rhain ar y rhestr leol yn rhoi unrhyw amddiffyniad cyfreithiol iddynt rhag cael eu dymchwel neu eu difrodi.

Atodol

Gan gyfeirio at y Barri'n wynebu argyfwng treftadaeth gan fod nifer fawr o adeiladau pwysig wedi'u colli ers 2007, roedd y Cynghorydd Dr Johnson yn siomedig nad oedd yr Aelod Cabinet yn teimlo ei bod yn werth cynnal adolygiad i ddiweddarau'r Rhestr a gofynnodd iddo ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am amddiffyniad ychwanegol ar gyfer adeiladau nodedig mewn ardaloedd nad oeddent ar hyn o bryd ar gynllun "Rhestrwyd" ehangach CADW, i gynnig ffyrdd o gynnal treftadaeth y dref a allai fel arall gael ei cholli.

Ailadroddodd yr Aelod Cabinet, wrth gyfeirio at ei ateb cynharach, fod y gyfraith a'r polisi Cynllunio presennol yn cynnig amddiffyniadau o'r fath a bod rôl gan aelodau ward lleol i godi pryderon a hysbysu'r swyddogion Cynllunio a allai ddefnyddio mesurau o'r fath sydd eisoes wedi'u cynnwys yn Erthygl 4 o Orchymyn Datblygu Cynllunio Tref a Sir (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 a ddefnyddiwyd yn yr achos, fel yr oedd y Cynghorydd Dr Johnson yn ymwybodol ohono, i ddileu hawliau datblygu a ganiateir yn ymwneud â dymchwel Eglwys Bresbyteriaidd Crist yn Tynewydd Road, y Barri.

(v) Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson

Pa asesiad y mae'r Aelod Cabinet wedi'i wneud o effaith y Mesur Cenedligrwydd a Ffiniau ar y Cyngor, pan gaiff ei weithredu, a'i effaith ar ein gwaith i gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches o Afghanistan, Syria a gwledydd eraill sy'n cael eu chwalu gan ryfel?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Dai a Gwasanaethau Adeiladau

Er na ragwelir y bydd y Mesur Cenedligrwydd a Ffiniau yn cael effaith andwyol ar ffoaduriaid sy'n cyrraedd Bro Morgannwg drwy'r cynlluniau ailsefydlu "rheolaidd", gan gynnwys ffoaduriaid o Afghanistan, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro ei gynnydd drwy'r Senedd ac yn ymgynghori â Phartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru a'r Swyddfa Gartref i ddeall ei oblygiadau'n llawn.

Rydym hefyd yn ymgysylltu â chydweithwyr yn CLILC ac yn gweithio drwy CLILC ar y materion hyn.

Disgwylir y bydd y rhai sy'n cyrraedd drwy gynlluniau'r Swyddfa Gartref yn parhau i elwa ar wasanaethau sydd wedi'u rhoi ar waith i hyrwyddo integreiddio i'n cymunedau, gan gynnwys hyfforddiant iaith a chymorth cyflogaeth.

Atodol

Gan gyfeirio at Fesur Cenedligrwydd a Ffiniau Llywodraeth y DU, oedd yn ei farn ef yn tansilio Addunedau Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru a bwriadau da'r Cyngor ei hun yn sylweddol, tra bod y Cyngor Ffoaduriaid wedi'i alw'n greulon ac yn gosbol, gofynnodd y Cynghorydd Dr Johnson i'r Aelod Cabinet ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i fynegi pryderon am effaith y Bil a hefyd atgoffa'r rhai sydd mewn grym i helpu pobl o dan Gynllun Dinasyddiaeth Am Ddim Afghanistan.

Gan gyfeirio at yr angen i ymgynghori â rhanddeiliaid eraill ac i swyddogion allu ymateb, awgrymodd yr Aelod Cabinet y byddai'n rhoi ateb ysgrifenedig i'r Cynghorydd Dr Johnson ac yn ei ddsbarthu hefyd i holl Aelodau'r Cyngor.

(x) Cwestiwn gan y Cynghorydd R. Nugent-Finn

A all yr Aelod roi gwybod i mi am ganlyniadau a chanfyddiadau unrhyw archwiliadau o'r parciau a'r meysydd chwarae yn ward Cadog ac a oes unrhyw gyllid pellach ar gael ar gyfer adfywio'r Parciau (Ystâd Palmerston, Pentref Pencoedtre a Sgwâr y Gorllewin)?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Gallaf adrodd bod yr archwiliadau diweddar o ardal chwarae Coed Criafol ym Mhentref Pencoedtre, ardal chwarae Dobbins Road yn Palmerston ac ardal chwarae Sgwâr y Gorllewin i gyd yn foddhaol heb unrhyw waith brys yn angenrheidiol. Canfuwyd hefyd bod ardal chwarae Heol Lubren ym Mhentref Pencoedtre, sydd yn Ward Gibbonsdown, mewn cyflwr boddhaol. Ar hyn o bryd, nid oes cyllid ar gael gan S106 na'r brif gyllideb adnewyddu asedau blynyddol ar gyfer y meysydd chwarae hyn ar gyfer 2021 / 2022 ac, yn anffodus, mae cyfleusterau eraill sydd mewn cyflwr gwaeth na'r rhain, megis, er enghraifft, parc sglefrio'r Knap.

Er bod ein hopsiynau ariannu ein hunain yn gyfyngedig iawn, mae swyddogion yn parhau i ymchwilio i bob ffrwd ariannu allanol posibl ar gyfer gwelliannau i ardaloedd chwarae awyr agored, ond byddai'n rhaid blaenoriaethu cyllid o'r fath os caiff ei dderbyn.

Yn absenoldeb y cyllid angenrheidiol i adnewyddu ein hardal chwarae hŷn, gallaf eich sicrhau y bydd ein swyddogion yn parhau i'w harchwilio a'u cynnal er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n ddiogel i'w defnyddio.

Atodol

Gan gael sicrwydd am yr archwiliadau parhaus, gofynnodd y Cynghorydd Nugent-Finn i'r Aelod Cabinet egluro o ble y daeth y cyllid ar gyfer gwelliannau i ardal chwarae St. David Crescent a Belle Vue ym Mhenarth.

Roedd yr Aelod Cabinet yn cofio bod rhywfaint o'r cyllid wedi bod yn arian Adran 106 er na allai fod yn sicr gan fod y cwestiwn gwreiddiol yn ymwneud â Ward Cadog. Byddai angen iddo ymchwilio i'r wybodaeth cyn y gallai roi ateb a nododd y byddai'n rhoi ateb ysgrifenedig i'r Cynghorydd Nugent-Finn.

(vii) Cwestiwn gan y Cynghorydd R. Nugent-Finn

A all yr Aelod gadarnhau safbwynt Cyngor Bro Morgannwg parthed cynigion Llywodraeth Cymru i newid y cyflymder safonol o 30 i 20 mya ar Ffordd Caerdydd Y Barri?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Gallaf ddweud bod Swyddogion y Cyngor yn cysylltu'n agos â Llywodraeth Cymru a'u hymgyngorwyr TrC i gael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newid posibl yn y terfyn cyflymder safonol yng Nghymru o 30 mya i 20 mya. Mae unrhyw eithriadau ynghylch ble y gellid gweithredu'r terfynau cyflymder safonol 20 mya yn y Fro yn dal i gael eu hystyried yn fanwl yn seiliedig ar feini prawf a mapio penodol a gynhrychir gan Lywodraeth Cymru. Y dyddiad ar gyfer gweithredu'r terfyn cyflymder 20mya safonol yw mis Mai 2023 ar hyn o bryd, yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn pasio'r ddeddfwriaeth angenrheidiol.

Bydd yr holl ffyrdd dosbarth A a B 30 mya presennol ym Mro Morgannwg yn cael eu hystyried ar gyfer newid i 20 mya yn unol â meini prawf penodol ac asesiad manwl pellach gan gynnwys Ffordd Caerdydd lle mae'r terfyn cyflymder yn 30 mya ar hyn o bryd.

Mae rhagor o fanylion am ymestyn y terfyn cyflymder 20 mya ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Byddaf yn darparu adroddiadau i'r Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu perthnasol cyn gynted ag y bydd angen unrhyw benderfyniadau Gweithredol ar y mater hwn, ond ar hyn o bryd mae hyn gryn amser i ffwrdd.

(vii) Cwestiwn gan y Cynghorydd R. Nugent-Finn

Yn dilyn nifer o ddigwyddiadau difrifol ar Ffordd Caerdydd gan gynnwys y rhai a adroddwyd i Heddlu De Cymru a'r rhai nas adroddwyd, pryd y bydd Llwybr Teithio Llesol Ffordd Caerdydd yn cael ei weithredu a beth yw cynlluniau Bro Morgannwg yn y cyfamser i gadw cerddwyr, plant ysgol, beicwyr, modurwyr a defnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed yn ddiogel?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Fel y gwyddoch, gweithredwyd cynllun gwella'r Porth gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2020 yn ôl cais y Cynghorwyr Neil ac Anne Moore sydd hefyd yn Gyngorwyr Cadog i annog cydymffurfiaeth â'r terfyn cyflymder wrth fynd i'r adran 30mya ar Heol Caerdydd, y Barri. Cafodd y goleuadau croesi ar y sebra ar Ffordd Caerdydd, Y Barri hefyd eu huwchraddio i "groesfannau Zebrite" yn 2017/2018. Mae'r eurgylch hynod amlwg yn gwneud y croesfannau'n weladwy iawn ym mhob math o olau i draffig sy'n nesáu. Ar yr adeg hon hefyd, cafodd yr holl farciau ffordd eu hadnewyddu.

Hyd y gwn i, yn ffodus, nid oedd yr un o'r tri gwrthdrawiad achosodd anaf personol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf (100m bob ochr i groesfan sebra) yn cynnwys cerddwyr.

Cynigir Hyfforddiant Kerbcraft a Hyfedredd Beicio i bob ysgol yn y Fro gan ein Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd fel bod diogelwch ar y ffyrdd yn cael ei hyrwyddo a'i annog mewn plant o oedran ifanc.

Yn ychwanegol at hyn cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar lwybr Teithio Llesol arfaethedig ar gyfer Ffordd Caerdydd rhwng 15 Medi a 12 Hydref 2021. Derbyniwyd 279 o ymatebion drwy arolwg ar-lein, 3 ymateb drwy e-bost, yn ogystal â sylwadau gan ddau o aelodau'r ward, y Cynghorwyr Neil Moore ac Anne Moore.

O'r rhai a ymatebodd, mae 68% yn credu bod y cynlluniau i wella'r llwybr teithio llesol yn yr ardal hon yn gadarnhaol. Mae'r canlyniadau'n cael eu dadansoddi ar hyn o bryd ac mae adroddiad ymgynghori yn cael ei ysgrifennu gyda phenderfyniad ynghylch a ddylid gwneud cais am gyllid llawn ar gyfer y cynllun ym mis Ionawr 2022.

(ix) Cwestiwn gan y Cynghorydd R. Nugent-Finn

A all yr Aelod roi manylion a dadansoddiad o'r ffigurau presenoldeb, ymgysylltu a'r nifer a fanteisiodd ar y digwyddiad recriwtio a gynhaliwyd ym Mhenarth ddechrau mis Tachwedd a pham na chafodd ei ffurfio mewn partneriaeth â phrosiect 'Cyfle'n Codi' y Fro a'r Adran Gwaith a Phensiynau sy'n ceisio datblygu sgiliau a sicrhau cyflogaeth?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd

Roedd gennym 24 o gyflenwyr yn y digwyddiad recriwtio ym Mhenarth ddechrau mis Tachwedd. Roedd hwn yn ddigwyddiad ar y cyd rhwng darparwyr gofal cartref, gofal nyrsio a gofal preswyl annibynnol a'n Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol mewnol a Chartrefi Preswyl y Fro. Daeth 26 o unigolion â diddordeb i'r digwyddiad. Rydym wedi derbyn nifer o ymholiadau ers y digwyddiad ond nid ydym yn gallu rhoi ffigwr penodol ynglŷn â'r nifer a ymgymerodd â rôl ofalu wedi hynny gan fod yr holl fynychwyr wedi cysylltu â darparwyr unigol yn uniongyrchol.

Mynychodd Paul Pickering, Mentor Cyflogaeth (Yr Is-adran Gwella a Chynhwysiant Ysgolion) o Ganolfan Menter Gymunedol y Barri (CMCB) drwy'r dydd a buom yn

cydlynu â Beryl Williams, Canolfan Waith y Barri, a Carolyn Griffiths, Canolfan Waith Penarth, i hysbysebu a chyfeirio o safbwynt y Ganolfan Waith. Roedd y ddwy yn bresennol ar y diwrnod i ddangos eu cefnogaeth. Mae'r digwyddiad yn un fenter ymhlith nifer, i gefnogi recriwtio a chadw staff gofal. Byddwn yn cynllunio digwyddiad yn y Barri yn y flwyddyn newydd felly byddwn yn ymchwilio fel rhan o'r trefniadau hynny i weld a oes angen ymgysylltu pellach â chynllun 'Cyfle'n Codi' yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Atodol

Gan fod yn hapus i gynorthwyo'n bersonol i gefnogi digwyddiad y Barri, cyfeiriodd y Cynghorydd Nugent-Finn at y cytundebau, y recriwtio a'r canlyniadau hynny, a holodd a oedd yr Aelod Cabinet wedi ystyried gweithio gyda chynlluniau presennol y Fro fel Cyfle'n Codi, gan eu bod yn cefnogi datblygu sgiliau i sicrhau cyflogaeth?

Gan atgoffa'r Cynghorydd Nugent-Finn fod y Cyngor eisoes yn gweithio mewn partneriaeth, cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at raglen Llwybr Carlam i Ofal, i'w lansio'n fuan yn y Flwyddyn Newydd a fyddai'n rhoi cyfleoedd i unigolion gael cwrs dwys o bythefnos o hyfforddiant a chymorth, a gobeithiai y gallai'r Cynghorydd Nugent-Finn rannu manylion. Gallai pob rhaglen bosibl weithio mewn partneriaeth o ystyried yr argyfwng recriwtio mewn gofal ac roedd y Cyngor yn gwneud popeth posibl i weithio gyda chymaint o bobl ag y gallai i gael cynifer o ofalwyr â phosibl i mewn i'r system.

(x) Cwestiwn gan y Cynghorydd G.D.D. Carroll

A wnaiff yr Arweinydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effeithiau posibl amrywiolyn Omicron SARS-CoV-2 ar ddarparu gwasanaethau gan yr Awdurdod?

Ateb gan yr Arweinydd

Diolch am eich cwestiwn, ond mae'n rhy fuan i amcangyfrif effaith bosibl Amrywiolyn Omicron Covid-19, ond mae'n amlwg y dylai pawb ystyried yn ddwys effaith bosibl yr amrywiolyn hwn a pharhau i gymryd y camau angenrheidiol i atal lledaeniad unrhyw amrywiolyn Covid-19. Ar hyn o bryd nid wyf yn ymwybodol bod achosion o fewn ein sir, ond mae'r holl arwyddion yn awgrymu nad fel hyn y bydd yn parhau. Dyna esbonio fy sylw felly am barhau i fod yn ofalus.

Er hynny, mae ein dealltwriaeth o'r ffordd y mae'r amrywiolyn Omicron yn cael ei drosglwyddo a'i effeithiau posibl yn dal i ddatblygu. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda phartneriaid ieuchyd cyhoeddus i roi mesurau ar waith a fydd yn parhau i ddiogelu'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, ac fel y gwyddoch mae Llywodraethau eisoes wedi gwneud rhai newidiadau i'r gyfraith ar deithwyr sy'n cyrraedd a mesurau diogelu eraill.

Bydd unrhyw gyfyngiadau pellach a chynghor cysylltiedig dilynol yn cael eu cyhoeddi a'u hyrwyddo gan y Cyngor hwn i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o unrhyw gamau y mae angen iddynt eu cymryd, gan gynnwys unrhyw frechiadau pellach a allai fod ar gael.

Atodol

Gan gymeradwyo sylwadau'r Arweinydd a chyfeirio at y gwaith a oedd yn cael ei wneud mewn partneriaeth â'r partneriaid iechyd cyhoeddus i fonitro'r amrywiolyn Omicron, holodd y Cynghorydd Carrol a oedd yr Arweinydd neu'r swyddogion wedi cynnal unrhyw gyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru neu lechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â'r amrywiolyn ac a oedd unrhyw gyfarfodydd pellach wedi'u cynllunio yn y dyddiau neu'r wythnosau nesaf?

Wrth gadarnhau bod cyfarfodydd bob pythefnos yn cael eu cynnal gyda'r Awdurdod lechyd ac aelodau lechyd Cyhoeddus Cymru bob pythefnos ac a fynychwyd ganddo ef a'r Rheolwr Gyfarwyddwr, nododd yr Arweinydd y gallai cyfarfodydd ddigwydd unwaith yr wythnos, os byddai'n ymddangos bod y sefyllfa'n gwaethygu. Roedd hefyd yn cyfarfod yn barhaus â Gweinidogion Llywodraeth Cymru ar bynciau amrywiol ac roedd hynny hefyd yn cynnwys y pandemig. Yn ogystal, roedd Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor yn cyfarfod bob pythefnos i ddelio â materion yn ymwneud â'r Pandemig. Rhoddodd sicrwydd i'r Cynghorydd Carroll y byddai'n parhau i gyfarfod a thrafod gyda'r gwahanol randdeiliaid a nododd waith y Swyddogion Tracio ac Orlhain a fu'n gweithio gyda'r Heddlu yn y timau gorfodi ar y cyd, am ganmoliaeth.

(xi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd G.D.D. Carroll**

A wnaiff yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau y mae'r Awdurdod wedi'u cael gyda Bwrdd lechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ynghylch darpariaeth meddygon teulu yn nwyrain y Fro?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd

Rwy'n hapus i ddiweddarau yn ôl y gofyn, ond o gofio nad oes dim byd penodol i mi fynd i'r afael ag ef, y cyfan y gallaf ei ddweud mewn gwirionedd yw fy mod yn trafod yn rheolaidd â'r Bwrdd lechyd Prifysgol ar faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau meddygon teulu ledled Bro Morgannwg, gan ganolbwyntio'n fwy diweddar ar y Fro Ddwyreiniol. Gwn fod uwch swyddogion hefyd yn cael deialog debyg gyda swyddogion yn y Bwrdd lechyd Prifysgol. Os oes gan y Cynghorydd Carroll rywbeth mwy penodol mewn golwg, yna gobeithio y gallaf fynd i'r afael â'i bwyntiau mwy penodol.

Atodol

Gan gyfeirio at bryderon ei etholwyr ynghylch y bwriad i gau Meddygfa Albert Road ym Mhenarth ym mis Mawrth 2022 a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar ddarpariaeth meddygon teulu yn ardal Dwyrain y Fro, gofynnodd y Cynghorydd Carroll i'r Aelod Cabinet ysgrifennu at Fwrdd lechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i fynegi'r pryderon hyn a phwyso am sicrwydd y byddai'r ddarpariaeth honno'n cael ei chynnal.

Gan gyfeirio ato'i hun fel claf ym Meddygfa Albert Road ac fel preswlydd yn y Fro Ddwyreiniol, roedd yr Aelod Cabinet yn siŵr y byddai'r Cynghorydd Carroll wedi gweld y datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Bwrdd lechyd Prifysgol, a phwysleisiodd fod y Cyngor eisoes wedi gwneud nifer o awgrymiadau a chynigion i'r

Bwrdd Iechyd Prifysgol ynghylch opsiynau posibl ac awgrymiadau tymor byr fel y gallai cleifion barhau i dderbyn y gwasanaeth. Roedd y rhain yn cynnwys nodi safleoedd ac adeiladau penodol y gellid eu defnyddio i roi llety i Feddygfa Albert Road yn y tymor byr. Roedd hyn i gyd tra'n cydnabod bod darparu meddygfeydd yn fater i feddygon teulu eu hunain a'r Bwrdd Iechyd Prifysgol. Roedd yn hapus i ysgrifennu'n ffurfiol, ond fel y nodwyd roedd y Cyngor eisoes yn trafod ac yn cynnig cymorth o ran atebion a hefyd am bwysleisio wrth y Bwrdd Iechyd ei bod yn bwysig bod pob claf yn dawel eu meddwl na allai'r sefyllfa aros tan fis Mawrth y flwyddyn nesaf. Roedd yn gobeithio y byddai'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu ar hynny ac yn rhannu gwybodaeth. Roedd yn deall y byddai cyfle i drosglwyddo cleifion ond roedd am i'r Bwrdd Iechyd ddarparu manylion fel bod preswylwyr / cleifion yn deall y sefyllfa sy'n effeithio ar y feddygfa honno. Roedd yn ofni nad oedd hwn yn ddatblygiad ynysig o ystyried sylwadau gan aelodau'r Llywodraeth, ar lefel Gymreig a'r DU, am yr effeithiau ar recriwtio meddygon teulu a dywedodd ei fod yn ymwneud â'r Bwrdd Iechyd Prifysgol yn llwyr wrth geisio datrys pa bynnag atebion a nodwyd, gan fod Cyngorwyr a swyddogion uwch eraill yn y Cyngor.

(i) **Cwestiwn gan y Cynghorydd J.E. Charles**

A wnaiff yr Aelod Cabinet gadarnhau a oes cynlluniau ar gyfer mwy o Gabanau fel y rhai ar Court Road?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Dai a Gwasanaethau Adeiladau

Wrth ddechrau, ga'i ddweud faint yr ydwyf wedi fy llonni o weld y llety camu ymlaen sydd wedi cael ei ddatblygu yn Court Road. Mae'n destun cenfigen i lawer o Awdurdodau Lleol sydd wedi gofyn am ymweld â'r safle. Yr wyf wrth fy modd bod y Fro yn arwain y ffordd yn y math hwn o ddarpariaeth, sydd mor hanfodol i sicrhau bod gan ein trigolion mwyaf agored i niwed do uwch eu pen.

Mae'r tîm Datblygu Tai yn parhau i chwilio am safleoedd a'u gwerthuso er mwyn penderfynu a ydyn nhw'n addas ar gyfer Cynlluniau Tai Brys ychwanegol (cabanau), yn debyg i'r un yn Court Road. Mae hen safleoedd garej HRA, manau parcio a daliadau tir cronfeydd cyffredinol yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

Mae'r tîm Datblygu Tai hefyd yn ceisio addasu adeiladau cronfeydd cyffredinol i bwrpas newydd a chaffael eiddo o'r farchnad agored i'w addasu, er mwyn cynyddu'r cyflenwad o lety dros dro.

Atodol

Gan gyfeirio at y lles meddyliol a'r balchder oedd gan y trigolion oedd nawr yn byw yn y cabanau ac at y gwaith gwyb ar eu gerddi, cyfeiriodd y Cynghorydd Charles at y 65 o bobl ddigartref sy'n byw mewn llety dros dro a gofynnodd i'r Aelod Cabinet faint o amser fyddai hi cyn y bydden nhw'n cael llety mwy parhaol.

Nododd yr Aelod Cabinet fod 240 o bobl ddigartref mewn 3 gwesty ym Mro Morgannwg a dyna pam yr oedd y Cyngor yn edrych ar safleoedd addas eraill, fodd bynnag, ni allai roi dyddiad pendant pan fyddai'r bobl hyn yn symud i lety parhaol. Roedd y Cyngor mewn cysylltiad â landlordiaid preifat, ond hyd nes y gallai'r Cyngor

adeiladu mwy o eiddo byddai'n her barhaus i gartrefu'r rhai sydd ar y rhestr aros am lety gan y Cyngor.

(xiii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd J.E. Charles**

Pam nad yw'r cyhoedd wedi derbyn cynllun 12 neu 18 mis ar gyfer arddangosfa'r oriel?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Hamdden, Celfyddydau a Diwylliant

Dwi ddim yn deall y cwestiwn mewn gwirionedd, o gofio bod yr holl wybodaeth mewn perthynas â gweithgareddau ac arddangosfeydd yr Oriel wedi'i marchnata gyda chefnogaeth Tîm Cyfathrebu'r Cyngor, ac wedi ymddangos ar wefan Bro Morgannwg, y cyfryngau cymdeithasol, y wasg leol a thrwy Eventbrite.

Mae cynllun deuddeg mis dangosol i'r oriel ar gyfer 2022 sy'n cael ei gwblhau, yn aros am gadarnhad gan bob arddangoswr a chaiff ei gyhoeddi'n fuan.

Atodol

Gan gyfeirio at y feirniadaeth o'r cyfathrebu o'r Oriel mewn ymgynghoriad diweddar a'r rhaglen arddangos gyfyngedig bresennol, holodd y Cynghorydd Charles pryd y byddai rhaglen lawn yn cael ei gweithredu.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at yr heriau amlwg i orielau weithredu o ganlyniad i'r Pandemig, yr hyn y gallai'r cyhoedd ei wneud ac artistiaid a oedd yn barod i ganiatáu i'w gwaith gael ei arddangos, ac atgoffodd y Cynghorydd Charles bod arddangosfeydd ar-lein wedi bod ar gael drwy'r pandemig ac y gallai pobl gael mynediad atynt o ddiogelwch eu cartrefi, os oeddent yn ansicr am adael eu cartrefi. Roedd hi'n ymwybodol iawn o'r hyn a ddywedodd yr ymateb i'r ymgynghoriad, cyfeiriodd at yr arddangosfa bresennol yn yr Oriel gan "Y Grŵp Cymreig" a oedd yn arddangosfa amlgyfrwng gan artistiaid amrywiol o bob cwr o'r Fro. Roedd y cyfyngiadau wedi cael effaith ar weithrediad yr Oriel i ryw raddau, ond roedd digwyddiadau parhaus yn yr Oriel Gelf Ganolog ac ar draws y Fro.

(i) **Cwestiwn gan y Cynghorydd J.E. Charles**

A all Ysgolion / Colegau gymryd mwy o ran mewn gweithgareddau ac arddangosfeydd yn yr oriel?

Er bod y cwestiwn uchod wedi'i gynnwys yn yr agenda, dywedodd y Cynghorydd Charles, wrth gydnabod yr ymateb i'r cwestiwn blaenorol mewn perthynas â chynlluniau'r oriel, ei bod yn hapus i fwrw ymlaen heb ymateb ond gofynnodd "A allai'r Oriel gydweithredu â'r cwricwlwm celfyddydau mynegiannol newydd yng Nghymru a chynnal digwyddiadau ac arddangosfeydd a fyddai'n helpu athrawon y Fro i gyflwyno'r cwricwlwm newydd hwn? Byddai'r gofod hwn yn gweithredu'n well i bobl ifanc sy'n gwneud drama, ffotograffiaeth, y celfyddydau, tecstilau, cerddoriaeth ac ati, a dylai wneud hynny, a byddai hefyd yn helpu i adfywio canol y dref".

Nododd yr Aelod Cabinet y byddai'n sicr yn ystyried yr holl bwyntiau gan ddweud bod gan y Cyngor lawer o gynlluniau i gynnwys pobl ifanc ond diolchodd i'r Cynghorydd Charles am wneud yr awgrym, gan ddweud y byddai'n trafod gyda swyddogion beth y gellid ei wneud mewn perthynas â'r cais. Roedd y Cyngor hefyd wedi cynnal arddangosfeydd llwyddiannus o'r blaen, a rhoddodd fel enghraifft yr arddangosfa gan fyfyrwyr celf Coleg Caerdydd a'r Fro.

(xv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd V.P. Driscoll**

A wnaiff yr Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Gwasanaethau Gweladwy roi'r wybodaeth ddiweddaraf am faint o refeniw sydd wedi dod i mewn hyd yma o daliadau parcio mewn meysydd parcio?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Cyfanswm yr incwm ar gyfer pob maes parcio ym Mro Morgannwg o 1 Ebrill i 26 Tachwedd, 2021 yw £773,144 (heb gynnwys TAW).

Atodol

Gan gyfeirio at nifer o gynghorau ledled Cymru, gofynnodd y Cynghorydd Rowlands a fyddai'r Cyngor yn mynd i Hwyl yr Ŵyl ac yn canslo taliadau parcio ar gyfer cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd?

Er ei fod yn cydnabod yr awgrym fel un diddorol, atgoffodd yr Aelod Cabinet y Cynghorydd Driscoll mai diben cyflwyno taliadau parcio oedd annog trosiant yn y ceir a oedd yn parcio a bod hyn wedi'i gyflawni'n sylweddol yn ôl yr adborth a gafwyd hyd yma. Felly, roedd yn amlwg ei fod yn helpu i gael mwy o siopwyr i mewn i'r dref cyn mynd adref a gadael i siopwyr eraill ymweld. Nid oedd ganddo unrhyw gynlluniau i darfu ar hynny.

(xix) **Cwestiwn gan y Cynghorydd L.O. Rowlands**

A wnaiff yr Aelod Cabinet dros dai roi gwybod i ni faint o waith atgyweirio sydd wedi'i wneud i eiddo'r Cyngor o fewn y flwyddyn ddiwethaf?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Dai a Gwasanaethau Adeiladau

Cyfanswm y gwaith atgyweirio mewn ymateb i geisiadau ar eiddo'r Cyngor o 01/04/21 – 31/10/21 oedd 5,274.

Cyfanswm y gwaith atgyweirio mewn ymateb i geisiadau ar eiddo'r Cyngor o 01/04/20 – 31/03/21 oedd 6,741.

Atodol

Gofynnodd y Cynghorydd Rowland i'r Aelod Cabinet, gan gyfeirio at gyfnod aros o 4 mis am yr hyn yr oedd y tenant ac yntau'n ei ystyried yn waith atgyweirio brys ac felly'n annerbyniol, a fyddai'n gwneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau nad oedd tenantiaid y Cyngor yn aros cyhyd am waith atgyweirio brys.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet i'r Cynghorydd Rowlands a fyddai'n rhoi'r manylion priodol iddi a byddai'n ymchwilio i'r mater yn bersonol.

(xix) **Cwestiwn gan y Cynghorydd L.O. Rowlands**

A wnaiff yr Arweinydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni pan fydd yn disgwyl inni ddychwelyd i'r Siambr neu gael rhyw fath o fodel hybrid?

Ateb gan yr Arweinydd

Fel y byddaf yn dweud wrth Mrs. Ockerby, mewn ymateb i'w chwestiwn fel rhan o'r eitem nesaf ar yr agenda, byddaf hefyd yn atgoffa holl Aelodau'r Cyngor hwn bod y cyngor i weithio o gartref yn parhau i fod yn berthnasol yng Nghymru, ac fel Awdurdod cyhoeddus, mae angen inni gofio ein bod yn arwain drwy esiampl. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried y nifer uchel parhaus o achosion Covid-19 sy'n achos pryder, a'r pwysau ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Byddai annog cyfarfodydd cyhoeddus ar raddfa fawr ar adeg o'r fath yn amhriodol.

Rwyf hefyd yn synnu wrth gwestiwn y Cynghorydd Rowlands o ystyried y sefyllfa newidiol gyda'r amrywiolyn newydd, Omicron. Mae'r Pandemig ymhell o fod ar ben.

O ran ateb hybrid ar gyfer cyfarfodydd, mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn gweithio gyda'i ddarparwr CIVICO i deilwra ap (ap Civico) i ddiwallu anghenion y Cyngor a fydd hefyd yn cynnwys cyfleuster cyfieithu o'r Gymraeg. Bydd adroddiad sy'n manylu ar y gwaith a wnaed hyd yma yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn fuan a fydd yn cynnwys manylion amserlen hyfforddi ar gyfer Aelodau Etholedig a swyddogion y Cyngor o ran defnyddio'r ap dros y misoedd nesaf. Gellir defnyddio app Civico ar sail rithwir a hybrid, ond fel yr wyf eisoes wedi sôn, yn unol â chynghor Llywodraeth Cymru bydd cyfarfodydd Cyngor yn parhau i gael eu cynnal ar sail rithwir hyd nes y penderfynir fel arall. Byddai unrhyw symudiad i amrywio o'r safbwynt hwn, yn fy marn i, yn amhriodol ac yn ddiangen, yn enwedig gan fod cyfarfodydd yn gweithredu'n berffaith dda ar lwyfan rhithwir.

Yn wir, gall pawb gyfarfod yn eithaf siriol fel yr ydym. Gwn y bydd rhai eithriadau oherwydd yn amlwg o ran rhai cyfarfodydd efallai y bydd angen iddynt fod wyneb yn wyneb ond yn gyffredinol ni fyddwn yn cael cyfarfodydd yn y swyddfa oni bai ei bod yn gwbl angenrheidiol.

Atodol

Gofynnodd y Cynghorydd Rowlands, a oedd wedi drysu gan ymateb yr Arweinydd o gofio bod Llywodraeth Cymru / y Senedd wedi cyfarfod yn bersonol yn ogystal â defnyddio cyfleuster hybrid - a hefyd Gynghorau Tref a Chymuned - roedd ef ei hun yn eistedd ar Gyngor Tref y Barri - i'r Arweinydd pam fod un rheol i'r Cyngor ac un rheol i Lywodraeth Cymru.

Nid oedd yr Arweinydd o'r farn mai mater iddo ef oedd dweud beth y dylai cyrff eraill ei wneud ac ailadroddodd rai o'r pwyntiau a wnaeth mewn ymateb i'r cwestiwn

gwreiddiol o ran gweithio gyda darparwr y Cyngor, Civico a'r manteision a ddaw yn sgil yr App. Nid oedd yn gweld pam y dylai'r Cyngor wneud gan nad oedd diffyg democrataidd o ddefnyddio cyfarfodydd rhithwir a bod modd i'r Aelodau ymgysylltu a thrafod yn gwbl resymol fel yn achos y cyfarfod a oedd yn cael ei gynnal ar y pryd. Nid oedd yn gweld unrhyw reswm pam y dylai Aelodau Etholedig na'r cyhoedd gael eu rhoi mewn perygl, yn enwedig o ystyried y risg gynyddol i iechyd oedd yn ymwneud â'r amrywiolyn Omicron.

621 CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD –

Cyflwynwyd y cwestiynau canlynol ac atebwyd nhw fel y dangosir, yn unol â'r protocol y cytunwyd arno gan y Cyngor ar 5 Mai, 2010:

(i) **Cwestiwn gan Dr. A. Barratt**

Faint o ddisgyblion fydd ar gofrestr Ysgol Gynradd South Point, yr ysgol newydd yn y Rhws i 210 o ddisgyblion, pan fydd yn agor yn gynnar yn 2022, a beth mae'r Cyngor yn amcangyfrif bydd maint y gofrestr ar ddechrau'r flwyddyn ysgol yn 2022/23, 2023/24 a 2024/25?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio

Byddai Ysgol Gynradd South Point ar agor i ddisgyblion o 28 Chwefror, 2022 yn dilyn diwedd hanner tymor y gwanwyn.

Y disgwyl yw y byddai 77 o ddisgyblion ar y gofrestr pan fyddai'r safle newydd yn weithredol. Roedd y Cyngor yn derbyn ceisiadau am leoedd derbyn ar gyfer Medi 2022 a hyd yma roedd wedi derbyn 7 cais dewis cyntaf ar gyfer y dosbarth derbyn ers i'r broses agor ar 5 Tachwedd. Roedd hyn yn galonogol gan na chaeodd y broses tan 14 Ionawr, 2022, a rhagwelwyd ceisiadau pellach. Roedd 14 o ddisgyblion meithrin hefyd yn ymuno â'r ysgol dros y flwyddyn academiaidd hon ac roedd rhieni disgyblion 7 a hŷn eisoes wedi gwneud cais i ymuno â'r ysgol pan fyddai'n symud i'w lleoliad newydd yn gynnar y flwyddyn nesaf.

Yn seiliedig ar y wybodaeth hyd yma, roedd amcanestyniad presennol nifer y disgyblion fel a ganlyn:

21/22: 77
22/23: 89
23/24: 92
24/25: 95
25/26: 101

Mae'n amlwg y byddai angen adolygu'r amcanestyniadau hyn ar ôl cwblhau cylch derbyn blynyddol y dosbarth derbyn ym mis Medi 2022. Dylanwadwyd ar y rhagamcanion gan ddewis rhieni y rhagwelwyd y byddai'n gwella ar ôl i'r ysgol gael ei lleoli yn ei safle newydd, fel yr oedd wedi digwydd gyda rhaglenni datblygu ysgolion eraill.

(ii) **Cwestiwn gan Mrs K. Walters**

Hoffwn weld y prif barc, Parc y Jiwbilî yn Sili yn cael ei uwchraddio. Mae'n hen iawn, yn flinedig yr olwg ac yn anniogel siŵr o fod. Fe'i defnyddir bob dydd a gellid ei uwchraddio'n wych fel POB parc arall yn y Fro. Beth sydd angen i ni wneud i gael y bêl hon yn rholio?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Cafodd ardal chwarae Parc y Jiwbilî ei phrydlesu i Gyngor Cymuned Sili a byddai angen i'r Cyngor hwnnw roi cychwyn ar unrhyw uwchraddio i'r ardal chwarae hon. Felly, byddai'n fuddiol cysylltu â Chyngor Cymuned Sili yn y lle cyntaf. Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â Chyngorau Cymuned ar gynlluniau yn eu hardaloedd yn y gorffennol ac mae hyn yn rhywbeth y gallem ei archwilio os a phryd y cysylltir â ni.

(iii) **Cwestiwn gan Mrs. A. Blight**

Mae'n amlwg bod angen i bawb gymryd camau brys os ydym am gael unrhyw obaith o arafu'r newid yn yr hinsawdd. Yn dilyn rhybudd 'cod coch i ddynoliaeth' y Cenhedloedd Unedig i Lywodraethau'r Byd a chyhoeddiad Cyngor Caerdydd am uwchraddiad gwerth £25m o'i hamddiffynfeydd môr oherwydd pryderon am "gynnydd yn lefelau'r môr a achosir gan newid yn yr hinsawdd", pa gynlluniau sydd gan Gyngor Bro Morgannwg i ddiogelu cymunedau bregus yn well yn y Barri a Bro Morgannwg rhag y bygythiad o gynnydd yn lefel y môr yn y dyfodol?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Roedd Cyngor Bro Morgannwg mewn sefyllfa ffodus wrth ystyried codiadau yn lefel y môr yn y dyfodol, o'i gymharu â lleoedd eraill yng Nghymru.

Ystyrir mai perygl isel sydd i arfordir Bro Morgannwg, yn enwedig o amgylch ardal y Barri, yn sgil llifogydd oherwydd ei dopograffeg gyda rhan hir sylweddol o glogwyni yn amddiffyn ardaloedd mewndirol rhag llifogydd arfordirol. At hynny, ychydig iawn o berygl o erydiad clogwyni sylweddol fydd dros yr 20 mlynedd nesaf.

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn Awdurdod Rheoli Risg Arfordirol ac yn aelod o Grŵp Arfordirol Abertawe a Bae Caerfyrddin. Rhoddwyd y dasg i'r Grŵp hwnnw o gynnal y Cynlluniau Rheoli Traethlin ar gyfer rhannau helaeth o arfordir De Cymru a gellid dod o hyd i gopïau o'r cynlluniau hyn ar wefan southwalescoastalgroup.cymru/, gyda rhagor o wybodaeth hefyd ar gael am ddiogelu'r arfordir drwy wefan y Cyngor ei hun. Roedd camau gweithredu Cyngor Bro Morgannwg wedi llywio'r Cynlluniau Rheoli Traethlin a oedd yn darparu polisïau a argymhellwyd mewn perthynas â chynnydd posibl yn lefel y môr ac erydu arfordirol.

Byddai rôl cynllunio a rheoli datblygu'r Cyngor yn y dyfodol hefyd yn cael ei chyfeirio a'i llywio gan gyngor cynllunio cenedlaethol a oedd yn ceisio ystyried effaith newid yn yr hinsawdd o ran effeithiau llifogydd yn y dyfodol wrth asesu datblygiadau.

(iv) **Cwestiwn gan Mrs. V. Roberts**

A wnaiff y Cyngor adolygu eu penderfyniad a rhoi terfyn cyflymder o 20mya ym Maestref y Gerddi yn syth oherwydd cefnogaeth lethol, damweiniau diweddar a'u cefnogaeth i'r un cynllun yn Aberddawan?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

A gaf fi fod yn glir - o ystyried bod y cwestiwn yn awgrymu bod y Cyngor wedi cytuno i gynllun o'r fath yn Nwyrain Aberddawan - doedd y Cyngor ddim wedi gwneud hynny a doedd dim cynlluniau ganddo wneud hynny.

Deallaf eich bod wedi bod mewn trafodaeth ddiweddar gyda'm tîm priffyrdd a oedd wedi ymateb i chi a'ch bod eisoes wedi cael gwybod yn ddiweddar am y cofnod o wrthdrawiadau anafiadau personol (GAP) am y cyfnod o 5 mlynedd hyd at 25 Mehefin, 2020 (y data diweddaraf a roddwyd i ni gan Lywodraeth Cymru). Yr unig ddau wrthdrawiad a achosodd anaf personol a gofnodwyd yn ystod y cyfnod hwnnw oedd ym Mhorth-y-Castell yn 2017, ac achoswyd mân anafiadau. Digwyddodd y Gwrthdrawiad Anaf Personol (GAP) cyntaf ym mis Ionawr 2017 pan stopiodd cerbyd i ildio i draffig oedd yn dod i'w gyfeiriad a bu i gerbyd oedd yn dilyn yn agos y tu ôl iddo ei daro. Digwyddodd yr ail ym mis Mehefin 2017 pan dynnodd cerbyd allan o ochr y ffordd a gwrthdaro â cherbyd oedd yn pasio. Nid oedd yr un o'r ffactorau achosol a grybwyllwyd yn adroddiad yr Heddlu yn awgrymu bod cyflymder cerbydau yn broblem.

Byddech hefyd yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar gynlluniau ar gyfer terfyn cyflymder 20mya diodyn cenedlaethol, i gymryd lle'r terfyn cyflymder 30mya presennol. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd mawr i fanteision posibl cynnig o'r fath a'u cydnabod gennyf i a'r Cyngor fel rhai i wella diogelwch priffyrdd ac annog teithio llesol. Rhagwelir ar hyn o bryd y byddai'r gostyngiad cyflymder hwn yn dod i rym yng Nghymru yn 2023.

Fel rhan o'r newid arfaethedig yn y terfyn cyflymder diodyn o 30mya i 20mya, gwahoddodd Llywodraeth Cymru hefyd bob Cyngor yng Nghymru i gymryd rhan mewn cynllun prawf i dreialu newid i 20mya yn eu hardaloedd. Nod y treialon oedd datblygu trefniadau gorfodi a goresgyn unrhyw broblemau nas rhagwelwyd cyn i'r cynllun ddechrau cael ei ymestyn o bosib. Roedd y gwahoddiad i gymryd rhan bellach ar gau ond bu wyth ardal beilot yn llwyddiannus, gan gynnwys Saint-y-brid ym Mro Morgannwg. Nid oedd y treial hwn, fel y nodais yn gynharach, yn cynnwys Dwyrain Aberddawan.

Byddai canlyniad y cynlluniau peilot a'r ymgynghoriad cyhoeddus diweddar yn casglu data hirdymor ac yn helpu i ddatblygu strategaeth orfodi ar gyfer cyflwyno terfyn cyflymder 20mya diodyn yng Nghymru ym mis Ebrill 2023. Pan/os fydd terfyn cyflymder 20mya diodyn yn cael ei gyflwyno yng Nghymru, rwy'n rhagweld y byddai'r holl ffyrdd ym Maestref y Gerddi yn cael eu cynnwys.

O ystyried y cofnod diogelwch da o fewn rhwydwaith ffyrdd datblygiad Maestref y Gerddi fel y cyfeirir ato uchod, yn ogystal â'r newidiadau posibl i'r terfyn cyflymder diodyn a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru ymhen ychydig dros 18 mis, mae'n flin

gennyf nad oeddwn yn gallu cefnogi'r newid y gofynnwyd amdano i'r terfyn cyflymder ym Maestref y Gerddi cyn i Lywodraeth Cymru ymestyn y cynllun 20mya.

O ran Dwyrain Aberddawan nid oedd unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i weithredu terfyn cyflymder o 20mya.

(v) **Cwestiwn gan Mr. R. Curtis**

Mae strydoedd neu goed trefol yn chwarae rhan hanfodol wrth helpu i hidlo llygredd a sŵn traffig. Yn cyfrannu at amddiffyn rhag llifogydd. Maent hefyd yn helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac yn darparu bwyd a chartref i fyd natur. Heb y coed hyn, byddai ein trefi a'n pentrefi'n dod yn ddiffeithdir o goncrit a dur. Rydym yn deall yn iawn fod adegau pan fydd angen tynnu'r coed hyn oherwydd clefydau, eu hoed neu nifer o resymau eraill, ond credwn hefyd y dylid rhoi mwy o amddiffyniad iddynt ac y dylent gael budd o graffu cyhoeddus. Felly, a fyddai'r Cyngor yn ystyried gosod hysbysiad (tebyg i hysbysiadau cynllunio cyhoeddus) ar y goeden a dargedwyd i'w symud ddeng niwrnod cyn hynny yn esbonio'r rhesymau pam y mae'n rhaid tynnu'r goeden ac a fydd coeden neu goed yn cael eu plannu yn ei chyffiniau? Dylai'r hysbysiad hefyd gynnwys manylion cyswllt i ganiatáu i aelodau'r cyhoedd gwestiynu sail y penderfyniad.

Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Nid oedd y penderfyniad i gael gwared ar goeden stryd byth yn hawdd ac nid oedd yn rhywbeth yr oeddem yn ei wneud yn ysgafn. Roedd tynnu coeden bob amser yn ateb olaf a dim ond ar ôl i ddatrysiadau ymarferol eraill i gadw'r goeden stryd gael eu hymchwilio.

Gallaf gadarnhau ein bod eisoes yn gosod arwydd ar goeden stryd wythnos cyn iddi gael ei symud i roi gwybod i bobl i beidio â pharcio eu ceir yn ei chyffiniau.

Fodd bynnag, nid ydym yn amlinellu'r rheswm dros symud coeden, ond gallai preswylwyr gysylltu â ni drwy'r manylion ar yr hysbysiad i gael rhagor o wybodaeth am ei symud neu i drafod y trefniadau ar gyfer ailblannu. Fodd bynnag, dylid nodi mai un o'r rhesymau mwyaf cyffredin dros dynnu coed oedd osgoi hawliadau trydydd parti yn erbyn y Cyngor am ddifrod i eiddo. Mewn achosion o'r fath, byddai'r manylion yn gyfrinachol ac ni ellid eu datgelu.

(vi) **Cwestiwn gan Mr. G. Thomas**

A wnaiff yr Adran Priffyrdd dderbyn bod y broses ymgynghori ar gyfer y rheoliadau parcio yn Cosmeston yn ddiffygiol ac yn rhagfarnllyd pan anwybyddwyd barn wirioneddol y preswylwyr yr effeithiwyd arnynt, i orfodi'r rheoliadau parcio?

Os na dderbynnir hyn, a wnaiff y Cyngor ymchwilio i'r honiad difrifol hwn, ac yn y cyfamser, a wnaiff yr Adran Briffyrdd atal y rheoliadau parcio a pheidio â'u gorfodi tra eu bod yn cael eu hail-ystyried a'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn gywir.

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Roedd y Rheolaethau Parcio i Breswylwyr yn Cosmeston a roddwyd mewn grym yn ddiweddar wedi'u datblygu yn unol â'r Polisi y cytunwyd arno gan Gabinet y Cyngor yn ei gyfarfod ddydd Llun, 27 Gorffennaf, 2020 ac yn unol â Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Traffig Ffyrdd 1988.

Fel rhan o'r Polisi Rheolaethau Parcio i Breswylwyr cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol yn Cosmeston gyda llythyrau'n cael eu rhoi i'r holl breswylwyr y byddai unrhyw gynllun posibl yn effeithio arnynt, yn cynnwys yr eiddo hynny ar ystâd Parc Larnog ac Upper Cosmeston Farm. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn ystod mis Hydref 2020 a daeth i ben ddydd Sul, 1 Tachwedd, 2020. O ddadansoddi'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwnnw ac yn unol â'r Polisi, roedd cefnogaeth aruthrol i gyflwyno rheolaethau parcio preswylwyr yn yr ardaloedd preswyl yn Cosmeston.

O ganlyniad i'r ymateb cadarnhaol hwn, cynigiodd y Cyngor y dylid cyflwyno Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (GRhT) Ardal Parcio â Thrwydded i Breswylwyr yn Unig yn Cosmeston (ac ardaloedd eraill). Rhoddwyd hysbysiad cyhoeddus cyfreithiol statudol am y cynnig ar 22 Ebrill, 2021, yn gwahodd gwrthwynebiadau ysgrifenedig, erbyn 14 Mai, 2021 yn cynnwys ar ba sail y gwnaed unrhyw wrthwynebiad. Derbyniwyd nifer o wrthwynebiadau ffurfiol i'r cynnig ac, o ganlyniad, paratowyd ac ystyriwyd adroddiad gan Gabinet y Cyngor ar 21 Mehefin, 2021 i benderfynu a ddylid gweithredu'r GRhT. Mae cofnod y Cabinet C603 (sydd ar gael drwy wefan y Cyngor) yn cadarnhau'r penderfyniad a wnaed gan y Cabinet y dylid gwrthod y gwrthwynebiadau i'r GRhT arfaethedig am y rhesymau a esboniwyd a bod y GRhT Rheolaethau Parcio Preswylwyr Arfaethedig yn cael ei weithredu.

Hysbysebwyd Hysbysiad ffurfiol gofynnol Gwneud y Gorchymyn yn y wasg leol a rhoddwyd hysbysiadau ar y safle i gadarnhau y byddai'r Gorchymyn yn dod i rym ar 19 Gorffennaf 2021, a threfnwyd i osod yr arwyddion angenrheidiol i weithredu'r parth Parcio â Thrwydded i Breswylwyr ar ystâd Parc Larnog ac Upper Cosmeston Farm.

O ganlyniad, ystyriais fod yr holl weithdrefnau cywir wedi'u dilyn yn unol â gofynion y Polisi newydd a Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Felly, roeddwn yn fodlon bod yr holl brosesau angenrheidiol yn cael eu dilyn ac fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith rhoddwyd 21 diwrnod i'r cyhoedd gyflwyno unrhyw wrthwynebiadau i'r cynigion, ac ar ôl ystyried yr holl wrthwynebiadau a dderbyniwyd o fewn yr amserlen statudol, gwnaed y Gorchymyn a daeth i rym ar 19 Gorffennaf, 2021.

Nid wyf yn derbyn bod y broses yn ddiffygiol nac yn rhagfarnllyd mewn unrhyw ffordd gyda thrigolion yn cael cyfle i fynegi eu barn yn ystod yr ymgynghoriad anffurfiol â phreswylwyr ac yna yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus i weithredu'r GRhT, pan ystyriwyd barn gwrthwynebwyr yn llawn ynghyd â'r manteision sylweddol a gynigiwyd gan y cyfyngiadau arfaethedig a gwnaed penderfyniad rhesymol a dilys i fwrw ymlaen â'r Gorchymyn Rheoli Traffig i osod y rheolaethau arfaethedig ar barcio i breswylwyr.

Ar sail y broses gyfreithlon y cyflwynwyd y rheolaethau parcio i breswylwyr, ni fyddai'r Cyngor yn ymchwilio ymhellach i'r sefyllfa nac yn atal y cyfyngiadau parcio sydd ar waith ar hyn o bryd, gan fod y Cyngor wedi ymrwymo i adolygu gweithrediad yr holl gyfyngiadau parcio i breswylwyr diweddar 12 mis ar ôl eu gweithredu. Fel rhan o'r adolygiad hwn, byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i wneud unrhyw addasiadau rhesymol i'r Gorchmynion a'r cyfyngiadau bryd hynny.

Gobeithio bod hyn yn egluro'r broses gyfreithiol a ddilynir i weithredu'r Ardaloedd Parcio â Thrwydded i Breswylwyr yn Unig ac ymrwymiad y Cyngor i adolygu trefniadau o'r fath.

(vii) **Cwestiwn gan Ms. C. Ockerby**

Yn dilyn difrod i'r byrddau chwarae newydd yn y Parc Canolog, llawer o ffenestri Neuadd y Dref yn cael eu chwalu, difrod i fusnesau ac eiddo perchnogion busnes – graffiti ac fel arall – pryd fydd y teledu cylch cyfyng yn Heol Holltwn yn cael ei ddefnyddio eto?

Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Roedd camerâu teledu cylch cyfyng ar Heol Holltwn tuag at Sgwâr y Brenin ar-lein ar hyn o bryd, er nad oeddent i gyd yn gwbl weithredol ar adegau oherwydd gwaith cynnal a chadw hanfodol. Roedd un camera yn cael ei atgyweirio ar hyn o bryd, ond roedd gweddill y camerâu'n cael eu monitro gan yr ystafell reoli teledu cylch cyfyng gyda gwybodaeth berthnasol yn cael ei throsglwyddo i'r Heddlu.

O ystyried y cynnydd diweddar mewn digwyddiadau ar Holltwn, roedd camera symudol ychwanegol yn cael ei osod ar Sgwâr y Brenin gydag ymweliad safle yn ddiweddar i bennu lleoliad addas iddo.

Roedd gan y Cyngor bolisi dim goddefgarwch o ran Ymddygiad Gwrthgymdeithasol difrifol a byddai'r tramgwyddwyr a adnabyddid o'r teledu cylch cyfyng yn cael eu trin yn unol â'r polisïau hynny.

Yn ogystal â theledu cylch cyfyng, roedd Tîm Diogelwch Cymunedol Bro Morgannwg mewn partneriaeth â'r Heddlu, asiantaethau a rhanddeiliaid eraill wedi cyfarfod i ystyried opsiynau eraill i ddatrys problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gyffredinol yn yr ardal.

Ers mis Medi pan gofnodwyd 13 achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol, gostyngodd nifer y digwyddiadau, gydag 8 wedi'u nodi ym mis Hydref a dim ond un digwyddiad ym mis Tachwedd. Ym mis Rhagfyr tybiwyd mai'r un nifer ydoedd.

Byddai'r tîm Diogelwch Cymunedol yn parhau i fonitro'r sefyllfa o amgylch y Parc Canolog ac ardaloedd cyfagos a byddid yn gweithio gyda phartneriaid i ystyried mesurau pellach pe bai angen.

(viii) **Cwestiwn gan Ms. C. Ockerby**

O gofio nad yw'r eiddo sydd wedi'i fandaleiddio yn y Barri a Phenarth (graffiti) yn mynd i gael eu glanhau gan y troseddwr, ac o gofio bod llawer ohonynt yn eiddo gwag, pa gynlluniau sydd ar waith i'w glanhau? Yng nghyfarfod llawn diwethaf y Cyngor, dywedwyd bod y Cyngor wrthi'n darganfod pwy sy'n berchen ar yr adeiladau yr effeithiwyd arnynt i gysylltu â nhw ynglŷn â'r graffiti. Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran darganfod pwy sy'n berchen ar yr adeiladau? Ar wahân i The Small Space, a bostiodd eu bod wedi glanhau eu heiddo, pa gynnydd, os o gwbl, sydd wedi'i wneud o ran y nifer fawr o eiddo eraill sydd wedi'u fandaleiddio?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Roedd yn ofynnol i'r troseddwr a oedd yn gyfrifol am nifer o'r digwyddiadau graffiti ar Heol Holltwn gyflawni 8 awr o wasanaeth cymunedol a gwblhawyd ac a arweiniodd at lanhau rhywfaint o'r graffiti yn yr ardal.

Byddai gwaith partneriaeth gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a'r Gwasanaeth Prawf yn digwydd i drefnu i ddefnyddwyr gwasanaeth gefnogi'r gwaith o lanhau'r graffiti a byddai'n dechrau cyn bo hir.

Roedd Grŵp Rheoli Canol y Dref wedi bod yn gweithio'n rhagweithiol ar atebion mewn perthynas â'r problemau'n ymwneud â graffiti ar Heol Holltwn a Sgwâr y Brenin. Roedd gwaith ar y camau gweithredu o'r cyfarfod hwn yn cynnwys cwblhau'r prosiect graffiti ar y caeadau rholio ar hen safle siop Burtons.

Parhaodd swyddogion Canol Tref y Cyngor i ymchwilio i berchnogaeth eiddo ledled y Fro ac ymgysylltu â pherchnogion eiddo i annog glanhau graffiti ac i ddatrys unrhyw faterion a allai fod gan berchnogion.

Roedd y Cyngor a chydweithwyr plismona lleol wedi parhau i ymgysylltu'n gadarnhaol â'r manwerthwyr ac roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi parhau i ymgysylltu â phobl ifanc. Roedd ymarfer ymgynghori dan arweiniad ein Tîm Gwasanaethau Ieuenctid ar y gweill i ganfod pa weithgareddau amgen yr oeddent yn teimlo a allai helpu i ddargyfeirio pobl ifanc i ffwrdd o ymddygiad gwrthgymdeithasol (YGG) ac anhrefn, ac roedd gwaith cwmpasu'n cael ei wneud i edrych ar ddichonoldeb darpariaeth clwb ieuenctid i leihau YGG yn y lleoliadau lle ceir problemau.

(ix) **Cwestiwn gan Ms. C. Ockerby**

Mae'r ganolfan hamdden yn dal i fod yn adeilad cyhoeddus felly pam nad ymgynghorwyd â'r cyhoedd ar yr ardal gampfa awyr agored newydd sy'n cael ei hadeiladu ar ôl cael gwared ar lithren y pwll? Cafodd y llithren ei datgymalu ac nid oes dim i'w weld wedi digwydd ers hynny. Beth yw'r amserlen ar gyfer y gwaith a beth yn union fydd yn mynd yn y gofod hwn?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Hamdden, Celfyddydau a Diwylliant

Yn anffodus, roedd hi'n mynd i fod yn rhy ddrud i drwsio'r llithren yng Nghanolfan Hamdden y Barri a bu'n rhaid ei symud. Ar ôl sgwrsio â pherchnogion / rheolwyr y ganolfan hamdden, Legacy, roeddent bellach wedi rhoi pwll chwyddadwy mawr yn ei le, a oedd yn gweithredu fel llithren amgen. Er ein bod yn ceisio barn cwsmeriaid lle bynnag y bo modd, megis y symudiad diweddar yn y Ganolfan i fath 'newid pentref' o lety, nid oedd bob amser yn bosibl oherwydd problemau fel cyfyngiadau amser o ran ariannu.

Dysgwyd gwersi niferus yn ystod y pandemig ac un o'r rhain oedd bod angen ardal ffitrwydd awyr agored i ategu'r ganolfan hamdden ac yn hytrach na chael gofod gwag a llithren na ellid ei defnyddio, roedd archebion bellach wedi'u gosod ar gyfer ardal ffitrwydd newydd a fyddai'n cael ei datblygu yn y gofod awyr agored a adawyd gan y llithren, cyn gynted ag y byddai'r deunyddiau a'r offer ar gael i'w gosod.

(x) Cwestiwn gan Ms. C. Ockerby

O ystyried dull y Cyngor o ymdrin â thryloywder ac ymgysylltu â thrigolion, a ellid ystyried arddangos rhestr o geisiadau cynllunio a thrwyddedu ar y byrddau gwybodaeth i'r cyhoedd y tu allan i'r Swyddfeydd Dinesig a Sgwâr y Brenin bob pythefnos/mis a phostio ar y cyfryngau cymdeithasol? Byddai hyn yn galluogi preswylwyr i weld yr hyn sy'n cael ei gynllunio yn eu hardal a rhoi ffyrdd o ymateb iddynt, gan nad yw'r porth cynllunio'r peth hawsaf i'w lywio; mae'n amhosibl i rai ac fel y gwyddom, nid oes gan bawb fynediad i'r rhyngwrdd i allu gweld ac ymateb i'r geisiadau hyn.

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio

Roedd yr holl wybodaeth ddiweddaraf ar gael drwy'r gofrestr gynllunio ar-lein a oedd yn caniatáu i gwsmeriaid chwilio am yr union beth yr oeddent yn chwilio amdano, er enghraifft 'Ceisiadau fesul Ward', 'Ceisiadau a benderfynwyd' neu 'geisiadau a dderbyniwyd' o fewn amserlen benodol. Roedd y gofrestr hefyd yn cynnwys dewislen hawdd ei defnyddio a oedd yn galluogi'r cyhoedd i weld yr holl geisiadau a ddechreuwyd o fewn y 7 neu 28 diwrnod diwethaf. Roedd y gofrestr hon ar gael ar-lein ond hefyd yn Swyddfa Dociau'r Cyngor drwy derfynell bwrpasol yn y dderbynfa.

Roedd Bro Morgannwg hefyd yn un o'r ychydig Gyngorau yng Nghymru i gael swyddog dyletswydd cynllunio ar gael dros y ffôn, drwy e-bost neu wyneb yn wyneb yn Swyddfa'r Dociau bob amser drwy gydol yr wythnos waith arferol, a allai ateb unrhyw ymholiadau cyffredinol am gynllunio neu helpu pobl i ddod o hyd i'r wybodaeth yr oeddent yn chwilio amdani.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r Cyngor yn hysbysu unrhyw un yr effeithir arno gan ddatblygiad arfaethedig yn unol â'n dyletswyddau statudol gan gynnwys llythyrau at gymdogion, hysbysiadau safle a hysbysiadau i'r wasg lle bo angen, yn ogystal â chyhoeddi gwybodaeth ar ein gwefan.

Bob mis roedd y Cyngor yn derbyn tua 180 o geisiadau cynllunio newydd a byddai rhestr a gyhoeddwyd y tu allan i'r Swyddfa Ddinesig yn rhy hir i fod yn wirioneddol ystyrion a byddai ond o fudd i nifer fach iawn o gwsmeriaid a oedd yn pasio heibio'r hysbysfwrdd. Felly, nid oedd gan y Cyngor unrhyw gynlluniau i gyflwyno hyn.

O ran trwyddedu, roedd hysbysiadau o geisiadau trwyddedu yn ymwneud â rhoi neu amrywio safle yn sylweddol (tafarndai, siopau diodydd trwyddedig, siopau tecawê trwyddedig a chlybiau aelodau cofrestredig) yn cael eu cyhoeddi fel a ganlyn:

- Mewn papur newydd lleol
- Wedi'i bostio ar y safle ei hun
- Ar wefan y Cyngor:

Byddai pob hysbysiad yn rhoi manylion cryno am y cais a'r dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno sylwadau. Roedd dolen i Hysbysiadau Cyhoeddus y Ddeddf Drwyddedu ar gael o dan y tab 'Gweithio' ar wefan y Cyngor. Nid oedd gennym unrhyw gynlluniau i gyhoeddi'r manylion yn unman arall gan y byddai hyn yn llafurddwys ac yn gostus ac mae ein trefniadau presennol yn cydymffurfio'n llawn â'n dyletswyddau cyfreithiol.

(xi) **Cwestiwn gan Ms. C. Ockerby**

Mae llawer yn croesawu'r cynllun i ddod â'r Hen Harbwr yn ôl yn ardal ar gyfer natur. Pa gyfathrebu a fu rhwng y Cyngor a Dŵr Cymru ynghylch y gollyngiadau gormodol o'r man carthion Cyfun ar Harbour Road a beth yw'r cynllun i leihau hyn?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Nid oedd y Cyngor yn gyfrifol am y gollyngiadau o'r arllwysfa garthffosiaeth gyfun ac roedd hyn yn fater i Ddŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, fel y corff trwyddedu. Felly, byddwn yn awgrymu'n barchus eich bod yn cysylltu â Dŵr Cymru yn uniongyrchol ynglŷn â'r mater hwn.

(xi) **Cwestiwn gan Ms. C. Ockerby**

Beth yw bwriadau'r Cyngor o ran parcio ar yr ynys os a phryd y gwerthir maes parcio Trwyn Nell? Sut bydd y traffig yn cael ei reoli pan fydd Maes Parcio Harbour Road yn llawn ac a fydd yr adran briffyrdd neu'r Heddlu yn cymryd cyfrifoldeb am reoli traffig i droi'r ymwelwyr i ffwrdd o'r Ynys?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Crëwyd maes parcio presennol Trwyn Nell fel 'lle i'w ddefnyddio yn y cyfamser', tra bod y safle'n cael ei farchnata. Yn anffodus, bu ymarferion marchnata blaenorol a gynhaliwyd yn 2012 a 2015 yn aflwyddiannus am wahanol resymau; fodd bynnag, uchelgais y Cyngor o hyd oedd hyrwyddo'r safle at ddefnydd addas twristaidd neu hamdden yn y dyfodol.

Pe bai unrhyw gynigion datblygu yn cael eu cyflwyno ar gyfer y safle hwn yn y dyfodol, byddai gofynion parcio a llif traffig parhaus, i ardal Ynys y Barri ac yn ôl, yn

cael eu hystyried yn llawn fel rhan o'r broses ddatblygu hon. Hefyd, yng ngoleuni'r argyfwng hinsawdd datganedig, byddem yn parhau i hyrwyddo teithio llesol a'r defnydd o drafndiaeth gyhoeddus fel y ffordd fwyaf priodol o gael mynediad i'r ardal.

(xi) **Cwestiwn gan Ms. C. Ockerby**

Yn un o gyfarfodydd craffu diweddar y Cyngor trafodwyd mater ymgysylltu â'r cyhoedd unwaith eto. Mae preswylwyr yn cael trafferth cael gafael ar eu Cynghorwyr ac aelodau staff pan fyddant allan o'u swyddfa. Gyda'r rhan fwyaf o drigolion yn gweithio maent yn anfon e-byst gyda'r nos ac ar benwythnosau ond mae'r rhain yn aml yn cael eu dychwelyd, ac yn cyrraedd eu ffolder sothach. A yw'r swyddogion a'r Cynghorwyr yn ymwybodol pa mor anodd yw hi i drigolion gysylltu â nhw a sut y gallant wneud hyn yn fwy hygyrch?

Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Nid wyf yn adnabod y mater a godwyd drwy'r cwestiwn hwn. Fel Aelod, rwy'n gwirio ac yn ymateb i bob e-bost yn ddyddiol. Gwn hefyd ei bod yr un mor hawdd cael gafael ar swyddogion p'un a oeddent yn gweithio gartref neu yn y swyddfa. P'un a oedd swyddogion ac Aelodau'n gweithio o bell, roeddent yn dal i weithio ar rwydwaith y Cyngor felly ni fyddai unrhyw newid i'r ffordd yr ymdriniwyd ag e-byst. Roedd yr un safonau Cyngor yn dal i fod yn berthnasol wrth ddelio ag e-byst a gohebiaeth.

Os oedd unrhyw broblemau wrth gysylltu â Chynghorwyr penodol, yna dylid codi unrhyw bryder yn y lle cyntaf gydag Arweinydd y Grŵp gwleidyddol perthnasol.

Y gosodiadau ar gyfrif e-bost unigolyn sy'n penderfynu pa negeseuon e-bost sy'n cael eu cyfeirio i'w ffolder sothach. Nid oedd gan yr anfonwr ac, yn y mater hwn, y Cyngor, unrhyw reolaeth dros y gosodiadau hynny.

Os oedd dinasyddion yn cael anhawster wrth wneud ceisiadau cyffredinol am wasanaeth neu am wybodaeth, efallai y byddai'r dinesydd yn ei chael hi'n haws - ac yn gyflymach - defnyddio ffurflen ar-lein neu e-bost Cysylltwch ag UnFro.

Fodd bynnag, os oedd gan Mrs. Ockerby enghreifftiau penodol, ar ôl ystyried fy ymateb, a allwn ofyn iddi anfon y rhain ataf fi neu'r Rheolwr Gyfarwyddwr gyda'r manylion fel y gallem ystyried ymhellach.

(xiv) **Cwestiwn gan Ms. C. Ockerby**

O weld bod sesiynau'r Senedd yn San Steffan ac ym Mae Caerdydd yn cael eu cynnal yn ôl yr arfer pam mae cyfarfodydd y Fro yn dal i gael eu cynnal bron heb unrhyw bresenoldeb cyhoeddus?

Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Roedd yr ateb yn gymharol syml – roedd y cyngor gweithio o gartref yn parhau i fod yn berthnasol yng Nghymru, ac fel Awdurdod cyhoeddus, roedd angen i ni gofio ein bod yn arwain drwy esiampl. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried y nifer uchel parhaus o achosion Covid-19 oedd yn achos pryder, a'r pwysau ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Byddai annog cyfarfodydd cyhoeddus ar raddfa fawr ar adeg o'r fath yn amhriodol.

Roedd hefyd yn bwysig sylweddoli nad oedd y pandemig wedi diflannu ac roedd amrywiolion newydd yn cylchredeg ar hyn o bryd (diolch byth ddim eto ym Mro Morgannwg). Roedd angen i bob un ohonom gofio y dylem i gyd gymryd y camau angenrheidiol i ddiogelu ein cymuned yn ogystal â ni ein hunain.

Byddwn yn awgrymu beth bynnag fod y cwestiwn hwn yn gwbl gamarweiniol ac wedi methu ag ystyried y sefyllfa o ran Covid-19 fel y cyfeiriwyd ato yn fy ymateb i gwestiwn a ofynnwyd yn flaenorol yn y fforwm hwn – roedd gan y cyhoedd bresenoldeb yn union fel yr oedd gan Aelodau Etholedig. Nid oeddent o dan anfantais – yr unig wahaniaeth oedd nad oeddent yn bresennol yn gorfforol i arsylwi ar gyfarfodydd. Roedd tryloywder llwyr. Roedd gan y cyhoedd fynediad llawn i'r holl wybodaeth a oedd yn cael ei hystyried mewn cyfarfodydd (ac eithrio materion o natur gyfrinachol) y gellid eu gweld ar wefan y Cyngor ac ymhell cyn cynnal y cyfarfodydd.

(xv) Cwestiwn gan Ms. C. Ockerby

Pam na chyhoeddwyd y wybodaeth am gau'r Lôn Pum Milltir ar wefan y Cyngor tan 8 Tachwedd – y diwrnod y dechreuodd y gwaith? Pam y rhoddodd yr hysbysiad wybodaeth anghywir, gan achosi i bobl wastraffu amser yn teithio a rhai siŵr o fod, i fod yn hwyr i'r gwaith? A beth y gellir ei wneud i atal hyn rhag digwydd yn y dyfodol?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Yn anffodus, ni allwn bob amser roi rhybudd ymlaen llaw am waith brys a wneir ar y briffordd. Yn yr achos hwn bu'n rhaid cau'r A4226 (Lôn Pum Milltir) tua'r gogledd o'i chyffordd ar Port Road i'r A48, Sycamore Cross, ar frys o 9am ar 8 Tachwedd, 2021 i wneud gwaith atgyweirio hanfodol ar y lôn gerbydau, oedd yn cynnwys y gor-rediad concriid ar ochr ogledd-orllewinol cyffordd-gylchfan Weycock Cross. Roedd y gor-rediad concriid yn ddiffygiol ac yn achosi perygl sylweddol i'r cyhoedd wrth deithio. Cwblhawyd y gwaith erbyn dydd Gwener, 12 Tachwedd am 1.00pm, ond gan fod y gwaith ar y concriid ond wedi'i orffen 24 awr yn gynharach, penderfynwyd gadael yr ardal wedi'i chau tan ddydd Sul am 10am i ganiatáu i'r concriid sychu'n iawn. Daeth y gwaith o gau a rheoli traffig dros dro i ben yn ôl y bwriad am 10am dydd Sul, 14 Tachwedd.

(xvi) **Cwestiwn gan Ms. C. Ockerby**

Yn ddiweddar, soniwyd mewn cyfarfodydd craffu am effeithiolrwydd gwael ymgynghoriadau. A allai ofyn yn barchus i Gyngor Bro Morgannwg a'r Cynghorwyr wneud mwy i hyrwyddo'r rhain ar-lein?

Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Roedd y Cyngor wedi ymrwymo i ymgynghori â dinasyddion fel rhan o brosesau gwneud penderfyniadau. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ein dull o gynnwys, ymgysylltu ac ymgynghori â dinasyddion ac adlewyrchwyd hyn yn y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Cyflawni Blynnyddol, ac ymgynghorir ar yr olaf y mis hwn.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau ymgynghori gwahanol ac arloesol, gan gynnwys drwy arolygon cyfryngau cymdeithasol, arolygon cyflym a gweithdai ar-lein i gynyddu'r cyfle i bobl gymryd rhan. Roedd y rhain wedi ymdrin ag ystod amrywiol o bynciau megis newid yn yr hinsawdd, y Cynllun Cyflawni Blynnyddol a'r defnydd yn y dyfodol o Bafiliwn Pier Penarth a'r Oriol Gelf Ganolog. Roedd canlyniadau'r ymgynghoriadau hyn wedi llywio'n uniongyrchol y camau dilynol yr oeddem wedi'u cymryd.

Byddai Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd y Cyngor yn nodi'n fanylach y camau y byddem yn eu cymryd yn hyn o beth. Roedd ymarfer ymgynghori'r Gyllideb hefyd yn cael ei gynnal ar hyn o bryd.

(xvii) **Cwestiwn gan Ms. C. Ockerby**

Ar ôl blynnyddoedd lawer o fyw gyda ffiasgo Haydock House, a ellid ychwanegu amod cynllunio ychwanegol at bob datblygiad yn y dyfodol? Rhywbeth fel hyn – Rhaid cwblhau'r tu allan i'r adeilad o fewn 2 flynedd o ddechrau'r gwaith adeiladu. Rheswm – Atal ein tref rhag dod yn ddolur i'r llygad.

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio

Drwy'r system rheoli datblygu, gellid rhoi gwahanol fecanweithiau ar waith i sicrhau bod datblygiad a gafodd ganiatâd cynllunio yn cael ei gwblhau yn unol â'r manylion a'r cynlluniau penodedig oedd yn ymwneud â'r cynllun cymeradwy. Roedd y Cyngor hefyd yn gallu atodi amodau cynllunio manwl er mwyn rheoli sut y gwnaed y datblygiad gan gynnwys defnyddio deunyddiau allanol, ond ar ôl i'r datblygiad ddechrau, doedd dim gofyniad mewn cyfraith gynllunio i'w gwblhau.

Ni fyddai cynnwys amod sy'n gofyn am gwblhau'r holl ddatblygiad o fewn amserlen gyfyngedig yn bodloni'r profion gofynnol o ran bod yn angenrheidiol, yn rhesymol nac yn orfodadwy ac ni allai'r Cyngor hwn nac unrhyw Gyngor arall ei weithredu. Cadarnhawyd hyn gan gyfraith achosion ac adolygiadau o benderfyniadau blaenorol gan y Llysoedd.

Er bod darpariaeth o fewn deddfwriaeth gynllunio i sicrhau bod datblygiad, a oedd wedi'i ddechrau ond heb ei gwblhau, yn cael ei orffen drwy gyfrwng hysbysiad cwblhau, os mai'r rheswm dros beidio â chwblhau oedd ystyriaethau ariannol, roedd yr hysbysiad yn annhebygol o fod yn llwyddiannus, ac yn ymarferol, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y defnyddiwyd y rhain felly.

Yn achos Haydock House, roedd y Cyngor yn ymwybodol o'r rhesymau pam nad oedd Cymdeithas Tai Hafod wedi bwrw mlaen â'r datblygiad ac roeddent wedi parhau mewn cysylltiad agos â hwy ynglŷn â chwblhau'r cynllun hwn. Er ei bod yn anffodus nad oedd y cynllun wedi symud ymlaen hyd yma, roedd hyn oherwydd nifer o resymau y tu hwnt i reolaeth yr Hafod ond deallwn fod gwaith i fod i aildechrau yn y Gwanwyn i gwblhau'r cynllun yn unol â'r caniatâd cynllunio.

(xviii) **Cwestiwn gan Ms. C. Ockerby**

Mae Cytundeb Cyflawni Drafft y CDLI Newydd yn cynnwys rhestr o "GYRFF GWIRFODDOL, Y MAE RHAI NEU BOB UN O'U GWEITHGAREDDAU ER BUDD UNRHYW RAN O ARDAL YR AWDURDOD LLEOL". A oes unrhyw reswm pam nad yw 'Beautiful Barry' ar y rhestr hon?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio

Ni fwriadwyd i'r rhestr o gyrff ymgynghori 'cyffredinol' yn Atodiad 1 y Cytundeb Cyflawni drafft fod yn gynhwysfawr a gellid ychwanegu sefydliadau / gyrff eraill fel y bo'n briodol. Fodd bynnag, gan fod Beautiful Barry yn grŵp cyfryngau cymdeithasol / cyhoeddus, nid ystyriwyd ei fod yn gorff gwirfoddol at ddibenion y Cytundeb Cyflawni. Os oedd 'Beautiful Barry' am gael eu diweddarau ar y cynnydd ar y CDLI Newydd ac am gael eu hymgyngori'n ffurfiol â hwynt, dylent lenwi'r 'Ffurflen Cofrestru eich Diddordeb' ar y wefan.

Yn ogystal, mae'r ymgynghoriad presennol ar y Cytundeb Cyflawni drafft a'r Adroddiad Adolygu drafft yn cau ar 17 Rhagfyr, 2021 felly roedd amser o hyd i ymateb os oeddech yn dymuno gwneud hynny. Roedd ffurflenni sylwadau ar gael ar y wefan.